

ECO'r Wyddfa

Rhif: 438
Tachwedd 2015
Pris: 70c



Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf sefydlwyd siop gydweithredol yn Llanrug; rhan o fudiad y Co-operative Society. Trigolion y pentref oedd ei 'pherchnogion', a thâl aelodaeth yn golygu fod 'difi' yn cael ei dalu allan ychydig ddyddiau cyn y Nadolig bob blwyddyn. Cadwodd Co-op Llanrug ei hannibyniaeth i'r diwedd nes i archfarchnadoedd Caernarfon a Bangor ei gorfodi i gau wedi canrif o wasanaethu'r pentref a'r ardaloedd cyfagos. A daeth Londis i gymryd ei lle. Ond erbyn hyn, mae'r co-op yn ôl!

Mae'r Co-operative Group wedi buddsoddi £400,000 ar adnewyddu yr hen siop, ac fe'i hagorwyd yn swyddogol ganol fis Tachwedd gan Y Parch Carol Roberts a Berwyn Roberts, un o gwsmeriaid selocaf y siop. Gwahoddwyd plant o'r ysgol gynradd yno hefyd i fwynhau'r achlysur, ac yr oedd llawer o'r cyn gwsmeriaid yn bresennol i fwynhau'r croeso, y danteithion a'r diodydd oedd ar gael.

Bydd y siop ar agor o saith y bore hyd ddeg yr hwyr, ac y mae cyn staff Londis i gyd wedi derbyn swydd yn y siop newydd. Mae'r storfa yn cynnig y nwyddau arferol, ac am yr wythnosau cyntaf

wedi cadw at draddodiad y 'difi' drwy gynnig gostyngiadau ar bris siopa wythnosol ac amryw i fargeinion ar wahanol nwyddau. Mae becws wedi ei sefydlu yno hefyd a cheir amrywiaeth helaeth o fwydydd wedi eu rhewi.

Penodwyd Sheila Roberts yn Swyddog Cymunedol, a bydd yn gyfrifol am gysylltu efo grwpiau a sefydliadau o fewn dalgylch y siop i gynnig cymorth ariannol neu ymarferol. Mae'r Co-operative Group yn cadw at egwyddorion y Co-operative Society gwreiddiol, ac yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r gymuned leol er budd pawb.

Mae croeso i unrhyw un sydd am fwy o wybodaeth gysylltu efo'r rheolwr, John Jones ar 01286 672078.

Mae'r "Eco" yn cael ei werthu mewn amryw o siopau yn y fro a thu hwnt, ond mae'r siopau fel arfer yn cadw cyfran o'r tâl am ei werthu. Mae Siop y Co-op Llanrug wedi cynnig gwerthu copiau o'r "Eco" a throsglwyddo'r holl arian gwerthiant yn ôl i goffrau'r papur. A dyna'r cam cyntaf yn eu cydweithio cymunedol.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn
Nadolig/Ionawr

Copi i law
Rhagfyr 6

Bwndelu
Rhagfyr 18

Ble
Llanrug

RHIF 438
Rhagfyr 2015

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Cofio Llywelyn

Annwyl Olygydd

Yn awr mae Tachwedd 11eg wedi mynd heibio a choffau'r rheiny a gollodd eu bywydau wrth ymladd dros Brydain, hoffwn atgoffa pawb am ddiwrnod coffa eto i ddod.

Ar Ragfyr 11, 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt yn ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwmhir. Aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrs golff Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i Ragfyr 11eg sef Rhagfyr 12fed eleni. Ewch i <http://www.gurfal.com/> am fwy o fanylion. Cynhelir hefyd ar ddydd Sul, Rhagfyr 13eg seremoni coffau yn Llys Rhosyr ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Yn Llys Rhosyr mae olion yr unig un o lysoedd Llywelyn, y cafwyd hyd iddo, i'w gweld.

Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.30 o'r gloch. Cyn hynny yn y bore caiff torchau eu gosod ar gofologfn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 12.30 o'r gloch.

Gobeithir gweld yn y seremonïau hyn pawb sy'n meddwl ei bod yn bwysig coffau'r Cymry a gollodd eu bywydau wrth ymladd dros ryddid i Gymru.

Yr eiddoch yn wlatgar
Chris Schoen
Penygroes
Gwynedd

Annwyl Olygydd

Derbyniais y gerdd isod gan ffrind i mi o Borthmadog. Hoffai wybod pwy yw awdur y gerdd. Os oes rhywun a gwybodaeth amdani a fyddwch cystal a gadael i mi wybod.

Cewri Llanberis
Dydd Sadwrn yn Llanberis
Wrth droed y Wyddfa fawr,
Mae'n ddiwrnod mabolgampau
A phawb mewn hwyl yn awr;
Ond er yr holl lawenydd
Rhyw gofio ydyf fi
Am gewri mawr Llanberis
A dynion yn eu bri.

Rwy'n gweled yr hen lwybrau
Lle cerddodd llawer un
I weithio glas glogwyni
A'i ebill bach a'i gyn;
Fe welais yno'r cewri
Yn symud creigiau gynt,
Ond heddiw maent yn ymladd
Yn galed am eu gwynt.

A llawer cyfaill heddiw
Sy'n huno'n awr mewn hedd,
Y llwch a'i galwodd yntau
I ddyfnder oer y bedd:
Os yw ei wedd yn welw
A'i enaid heddiw'n fud,
Ei lais sydd yn ddiderfyn
Ym mhedwar ban y byd.

Os gwrando wnawn yn astud
Wrth basio Nant rhywdro,
Cawn glywed lleisiau cewri
Yn dadlau yn y gro,
A'r chwarel ochor arall
Yn ddistaw heb ei ger,
A'r creigiau serth yn oeri
Fel cewri mawr Llanber.

Gyda diolch ymlaen llaw am
gymorth.
Yn gywir,
Arwel Jones. Cae Eboni,
Penisarwaun.
01286 871274.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£25: Rhiaian Griffiths,
Llundain i gofio am ei mam
Dilys Fouracres, gynt o
Benisarwaen.

£20: Y diweddar Gwilym
Williams, Llanrug.

£10: Mrs Ann Ellis Williams,
Y Ddolwen Fach, Bethel;
Enid Jones, Ffordd Capel
Coch, Llanberis; Nan Owen,
York Terrace, Llanberis;
Teulu'r diweddar Gwilym
Meurig Evans, Gift Shop,
Llanberis; I. Pierce, 6 Llwyn
Ceirios, Caernarfon; Er cof
am Dafydd Jones (Dafydd
North Road) gan y teulu;
Eirwen ac Alwyn, ar ran Mrs
Priscilla Williams, Wylfa,
Dinorwig.

£5: Anne Williams,
Tynrardd, Bethel; Teulu'r
ddiweddar Olga Williams,
Rock Terrace, Llanberis; Mrs
Nan Owen, 48 Rhydfadog,
Deiniolen; Mrs Rhianwen
Jones, Deiniolen; Ms Beti
Roberts, Deiniolen; Mrs
Roberts, Tan yr Henffordd,
Deiniolen.

AR WERTH

Beic ffitrwydd
Kettler SM 328x-75
Ewch i safle 'sweatband.com' am
fanylion llawn.

Ffoniwch 01286 673776
i drafod pris.

Beics Menai Bikes
RHAN O DEULU ANTUR WAUNFAWR

BEICS NEWYDD AC OFFER BEICIO
AR GYFER OEDOLION A PHILANT

ANRHEGION 'DOLIG FFANTASTIG!

(01286) 676 804 NEU 07436 797969

BEICS MENAI, 1 Cei Llechl, Caernarfon
E-BOST: gary.leadbitter@anturwaunfawr.org

Yn ystod y mis aeth heibio

Eira cynta




• Ar nos Fawrth gynta’r mis cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd Ysgol Brynrefail i drafod Her Gwynedd. Prin ugain o bobl oedd yn bresennol, ond cafwyd trafodaeth ddiddorol a buddiol. Er hynny, siomedig iawn oedd gweld mai dim ond un cynghorydd sirol o fro’r Eco oedd yn bresennol a llai na llond dwrn o gynghorwyr cymuned. O gysidro fod y toriadau llym arfaethedig sy’n cael eu gorfodi ar Gyngor Gwynedd gan y Llywodraeth Llundeinig yn mynd i effeithio ar bob copa walltog o fewn ein bro, mae’n syndod fod cyn lleied yn poeni digon i droi allan i gyfarfod o’r fath. Cau Llyfrgelloedd Deiniolen a Llanberis, dileu’r ddarpariaeth o finiau baw cŵn, lleihau amllder glanhau strydoedd ein pentrefi, cau clybiau ieuenctid, cau canolfannau hamdden, cynyddu pris cinio ysgol, talu am oruchwyllo amser brecwast yn ein hysgolion, bygwth nifer o wasanaethau i’r henoed a’r bregus: dyna rai yn unig o’r ystyriaethau dan sylw. Ac erbyn i chwi ddarllen hwn, bydd eisoes yn rhy hwyr i ddatgan eich barn. Pan (nid os) daw’r toriadau’n realaeth, peidiwch meiddio cwyno na chawsoch y cyfle i ddatgan eich barn.

• Yn gynharach yn y mis cyhoeddwyd fod Dŵr Cymru i wario £5.2 miliwn ar warchod pentref Llanberis rhag llifogydd. (gweler tudalen 24) Mae’n sicr y bydd nifer o drigolion y pentref yn cael eu heffeithio gan y gwaith yn ystod y deunaw mis nesaf, ond y gobaith yw na welir llifogydd tebyg i rai Tachwedd 2012 yma eto.

• Ddau ddiwrnod wedi Dydd y Cadoediad ac Eisteddfod Bentref Llanrug yn dirwyn i ben daeth y newyddion am yr erchylltra ym Mharis. Yn eironig iawn, roedd dau o’r unawdwyr yn yr oedran uwchradd newydd ganu ‘Imagine’, cân enwog John Lennon am fyd heb ffiniau a byw’n gytun. Daeth realaeth yr anfadwaith yn

Ceunant Mawr



amlycach dros y ddau ddiwrnod canlynol a dylifodd negeseuon o gydymdeimlad a chefnogaeth o bedwar ban byd. Yr un mor gyflym oedd ymateb Ffrainc, gan anfon ymgyrch fomio i Syria a thargedu canolfannau ISIS yno. Ac aeth Dydd y Cadoediad yn angof.

• Glaw, glaw a mwy o law. Gwynt, gwynt a chryfach gwynt. Dyna fu hanes Tachwedd yn dilyn Hydref hafaidd. Yn ffodus, ni ddioddefodd y fro effaith llifogydd na difrod i’r fath raddau a rhannau eraill o ogledd Cymru. Does ond gobeithio mai dyna fydd yn wir am weddill y gaeaf hwn hefyd.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

North Wales
SIGNS

Gogledd Cymru **grid**⁷⁶

northwalessigns.com | 07766956673

Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon

Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad

Ysgol Dolbadarn

CYFOETH NATURIOL CYMRU

Bu disgyblion yr ysgol yn crwydro Coed Doctor yn arsylwi cynefinoedd yn yr ardal leol gyda Swyn o Gyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar. Cafodd y plant amser da yn chwilota am goed a thrychfilod fel rhan o'r Thema y tymor hwn. Braff oedd gweld y disgyblion yn dysgu sut i werthfawrogi yr ardal leol.

RYGBI

Bu plant yr ysgol yn cystadlu mewn twrnamnet Rygbi yn ddiweddar diolch o gallon i Mr Gwilym a Mr Hughes am eu hyfforddi- mae dyfodol disglair i Rygbi yn nwylo'r plant!

Holiadur Chwaraeon Cymru

Bob dwy flynedd, mae Chwaraeon Cymru yn rhoi'r cyfle i ysgolion ledled y wlad gymryd rhan mewn arolwg arbennig. Holir y disgyblion am faint o weithgareddau corfforol mae'r disgyblion yn cymryd rhan ynddynt - boed yma yn yr ysgol ac hefyd yn eu hamser hamdden. Eleni, mae disgyblion blwyddyn 3-6 Ysgol Dolbadarn wedi bod wrthi yn ateb y cwestiynau pwysig, ac ar ddiwedd mis Hydref daeth canlyniadau'r arolwg i'r swyddfa. O'r disgyblion a holwyd, dyma oedd y prif ganfyddiadau:

- mae 89% o'r disgyblion yn teimlo'n hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd yn Addysg Gorfforol
- mae 76% o ddisgyblion yn mwynhau clybiau ar ôl ysgol yn fawr iawn
- mae 81% o'n disgyblion yn teimlo'n gyfforddus wrth gymryd rhan yn Addysg Gorfforol
- mae 89% o'r disgyblion yn mwynhau gwersi Addysg Gorfforol

Rydym fel ysgol yn falch o'r canfyddiadau ac yn ymwybodol o bwysigrwydd ymarfer corff ar ein iechyd. Mae'n hanfodol hybu cyfleoedd ein disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Cyhoeddi Llysgenhadon Chwaraeon

Rydym yn falch o gyhoeddi ein Llysgenhadon Chwaraeon am eleni, sef Jac Petch-Jones a Lisa Rowlands (blwyddyn 6). Mae'r ddau yn mwynhau chwaraeon a chadw'n iach, ac yn awyddus i hyrwyddo mwy o chwarae ymysg ein disgyblion.

Jac Petch-Jones (bl.6) - Dw i'n mwynhau chwarae rygbi, karate a sgïo tu allan i'r ysgol. Dw i am drio helpu mwy o ddisgyblion yr ysgol i gymryd rhan mewn gwahanol gemau.

Lisa Rowlands (bl.6) - Dw i wrth fy modd yn cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol. Dw i wedi cynrychioli'r ysgol mewn athletau, hoci a phêl-rwyd.



Pêl-droed

Trefnodd Mr Hughes gem gyfeillgar gydag Ysgol Waunfawr ar Gae'r Ddol yn ddiweddar- da iawn i chwi gyd am eich hymdrechion. Braff yw gweld plant y dalgylch yn cael cyfle i gymdeithasu fel hyn.



Hoci

Llwyddodd y disgyblion i gystadlu mewn twrnamnet hoci ym Mrynrefail yn ddiweddar- pawb wedi mwynhau ac wedi gweithio'n galed iawn. Diolch i Sioned am eu hyfforddi. Yr ydym yn ddiolchgar am gymorth rhieni sydd yn perthyn i glybiau hoci yn yr ardal.



Her Ddarllen Llyfrgelloedd Gwynedd

Cafwyd 20 Medal disglair drwy'r post i wobrwyo'r disgyblion hynny a fuodd wrthi'n darllen yn ystod yr Haf drwy ymgyrch y llyfrgell. Da iawn chi am fynychu'r llyfrgell yn rheoliadd.

Buarth y Cyfnod Sylfaen

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ddiolchgar iawn am y rhodd caredig o offer chwarae newydd ar y buarth. Arian gan Gyfeillion Yr Ysgol sydd wedi talu am yr offer a hynny drwy gynnal gweithgareddau megis Ffair Nadolig a Ffair Haf. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth.

CYNGERDD EGLWYS SANT PADARN

Bu i'r côr berfformio mewn cyngerdd arbennig yn eglwys Sant Padarn yn ddiweddar gyda chôr Meibion Dyffryn Peris a The People's College Choir Dublin. Yr oedd yn noson fendigedig a'r plant yn gwrando yn astud ac yn werthfawrogol o safon y canu mewn Cymraeg, Saesneg a Gwyddeleg. Derbyniodd yr ysgol rodd arbennig o £50 gan Mr Emerson Hughes ar ran Côr Meibion Dyffryn Peris. Bydd yr arian yn cael ei wario ar adnoddau cerdd i'r ysgol.

Parhad LLANBERIS

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Hydref oedd Tomos Owen.

Cyfarchion Gan na fydd Mrs Nan Owen, 8 Rhes Efrog, yn anfon cardiau Nadolig eleni, hoffai ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu a chyfeillion

Diolch Dymuna Enid, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i staff Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri, Plas Pen Gwaith a'r gofalwyr cartref am eu gofal. Diolch hefyd i'w holl gymdogion a ffrindiau am eu ymweliadau a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr iawn.

Diolch Dymuna Anne Williams, Tynrardd, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 70 oed.

Cyfarchion Nadolig Dymuna John, a theulu'r ddiweddar Olga Williams, 5 Rock Terrace, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a chymdogion gan na fyddant yn anfon cardiau allan eleni.

Diolchiadau Dymuna Gwilym, Iwan, Ann, Iolo a'r teuluollddiolchynfawriawnam bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd

tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, taid ac hen daid annwyl iawn sef Gwilym Meurig Evans (Gift Shop, Llanberis, gynt). Diolch o galon am y rhoddion hael iawn er cof amdano; derbyniwyd £1300 i'w rannu rhwng Hosbis Yn Y Cartref a Gwasanaeth Nyrsus Marie Curie. Diolch yn fawr iawn i'r nyrsys lleol, gofalwyr Gofal Bro ac i feddygon a staff Meddygfa Waunfawr am y gofal arbennig ohono. Diolch hefyd i'r Parchedig Ronald Williams am ei wasanaeth a'i gefnogaeth i ni fel teulu. Diolch i Gwynfor a Jane o gwmni Ymgymerwyr

E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau urddasol a thrylwyr o'r angladd. Diolch o galon i bawb.

Côr Dyffryn Peris Ar nos Sul yr 16eg o Dachwedd 'roedd y Côr yn cynnal noson yn y Neuadd, Sarn Mellteyrn, Llŷn. Arweinydd y Côr, yn ôl yr arfer, oedd Dafydd Roberts gyda Steven Evans a Ellie Lighton, ein cyfeilyddes newydd, yn cyfeilio ac Arwel Jones yn cyflwyno. Yr unawdwyr ar y noson oedd Ellen Roberts, soprano, a Gareth Hughes ar yr euphonium. Aeth elw'r noson at elusen Alzheimer.

Cyd Ddigwyddiad Rhyfeddol



Yn dilyn cyngerdd llwyddiannus yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ym mis Hydref eleni gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris a Chôr Plant Ysgol Dolbadarn yn cymryd rhan, ynghyd â'u gwsteion o Ddylun, The People's Choir, penderfynwyd trefnu taith o amgylch rhan o Ogledd Cymru iddynt. Y daith wreiddiol oedd ymweld â harddwch Llŷn – ond ar yr unfed awr a'r ddeg fe newidiodd y ddau dywysydd, Arwel Jones a David Price, y trefniadau i ymweld â man a fyddai o fwy o ddiddordeb i'w cyfeillion o'r Iwerddon.

Penderfynodd y ddau, gyda chydweithrediad Shane Price, Bysus Peris, fynd â hwy i Feddgelert, Tremadog, Trawsfynydd, Tryweryn a'r Frongoch. Yn y Frongoch, yn dilyn anghydfod Pasg 1916 yn Nulyn, fe garcharwyd Michael Collins ac Arthur Griffith a llawer o aelodau o Fyddin Gwirfoddolwyr Iwerddon mewn hen ddistyll dai chwisgi. Er nad oes olion o'r hen adeiladau i'w gweld erbyn hyn gwyddai'r ddau dywysydd fod Ysgol Gynradd Frongoch wedi ei chodi ar y fangre. Ond ar ôl cyrraedd y pentref - y fath gyd ddigwyddiad, ac yn gwbl ddiarwybod i'r tywyswyr yr oedd arddangosfa o hen luniau camp Frogoch ar fin gael ei hagor gan Yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas a Lyn Ebenezer yn ystod y prynhawn hwnnw! Yn anffodus doedd amser ddim yn caniatáu iddynt fod yn yr agoriad swyddogol, ond croesawyd y Gwyddelod â breichiau agored gan drefnyddion yr arddangosfa! Treuliyd awr ddifyr ac emosiynol iawn yn yr ysgol, gan fod rhai wedi adnabod rhai o'u hen berthnasau yn y lluniau. Awr i'w thrysori a hynny yn gwbl annisgwyl.

Oedfaon Capel Coch		
6/12	10yb:	Edward Morris Jones
	5yh:	Oedfa Nadolig Parti Bythol Wyrdd
13/12	10yb:	Y Gweinidog
	5yh:	Gwasanaeth Carolau – lleoliad ac amser i'w drefnu
20/12	10yb:	Parch Gwynfor Williams
	5yh:	Oedfa Nadolig y Plant
25/12	10yb:	Cymun
27/12	10yb:	Y Gweinidog

Plas Pengwaith

Daeth nifer dda ynghyd i'r cyfarfod ym Mhlas Pengwaith ddydd Mercher yr 11 Tachwedd i ddathlu ail benblwydd Cyfeillion Plas Pengwaith.

Amlinellodd y Cadeirydd eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn a dywedodd Sian Evans, Rheolwraig y Cartref fod cefnogaeth y Cyfeillion wedi bod yn werthfawr iawn iddynt. Roedd y Cyfeillion wedi llwyddo i gasglu arian, ac wedi gwella y cyfleusterau teledu yn y cartref cyfan; wedi rhoi cyfraniad o £500 tuag at gostau rhedeg y bws sydd yn ymweld â'r Cartref, wedi talu am ymweliadau ymwelwyr adloniant i'r Cartref, cyfranu at gostau triapiau, garddio a phlannu coed afalau.

Mae'r Cartref yn brysur yn paratoi erbyn y Nadolig ac os oes modd i chwi gynorthwyo mewn unrhyw fodd, byddai hynny o gymorth mawr. Ymunwch yn y gweithgareddau, prynwch docyn raffl, rhowch wobwr, gwnewch gacen. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda Sian 01286 870360.

Gwesty Dolbadarn

Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Clwb Bro Bethel Daeth nifer dda o aelodau i'r cyfarfod y mis yma a chroesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Y siaradwr oedd Bob Morris, Penygroes a chafwyd sgwrs ddiddorol dros ben ar y testun 'Gŵyl a Hwyl - 'Dathlu'r Tymhorau'. Gyda chymorth lluniau bu'n olrhain hanesion ac arferion y tymhorau gan gychwyn gyda'r gwanwyn. Dyma'r tymor pan fu pobl yn dawnsio o gwmpas y Pawl Mai i ddathlu dyfodiad mis Mai. Roedd diddanion yr hydref yn cynnwys noson Calan Gaeaf, hen ŵyl Geltaidd diwedd yr haf, y noson olaf cyn dechrau'r gaeaf, ac yn arwain i Wyl yr Holl Saint. Clywsom am arferiad y Fari Lwyd rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd ac yna canu Wasail tan ddiwedd Chwefror. Arferiad arall o gwmpas y Nadolig oedd anfon cardiau cyfarch a'r pobl oedd yn eu derbyn yn talu! Roedd pawb wedi mwynhau a diolchwyd yn gynnes iawn ar ran pawb gan Geraint Elis.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Ngholeg Menai ar ddydd Mercher Rhagfyr 2il. a'r bws yn cychwyn o Penrhos am 11.15.

Merched y Wawr Canwyd cân y mudiad a chroesawyd pawb gan Mair, ein llywydd. Ers ein cyfarfod diwethaf bu eisteddfod lwyddiannus yn y pentref, a braf nodi fod gwŷr Alys a Lis adre o'r ysbyty ac yn gwella. Braint i ni fel cangen oedd croesawu Malan Wilkinson atom, sy'n ddirprwy Gyfarwyddwraig Artistig Galeri Caernarfon. Pwnc trafod Malan oedd iselder, afiechyd sy'n taro 1 o bob 4 ohonom.

Cyflwynodd Malan ei hun

fel un o dair chwaer a gafodd fagwraeth hapus, yn cystadlu mewn eisteddfodau gyda'i bryd ar fod yn banydd glasurol, enillodd y brif wobr offerynnol yn eisteddfod rhyngwladol Llangollen yn 15 oed. Collodd ei mam ychydig cyn arholiadau lefel A. Graddiodd mewn Hanes a Newyddiadureg o brifysgol Bangor.

Darllenodd i ni bennod allan o lyfr 'Gyrru drwy Storm,' oedd yn ddyddiadur a ysgrifennodd Malan tra yn ward Hergest yn Ysbyty Gwynedd. Bu Malan yno 2 waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwnaeth ei phrofiad i ni chwerthin yn ogystal a cholli deigrin. Holwyd nifer o gwestiynau i Malan a diolchwyd iddi gan Ann.

Gwnaethpwyd y banned gan Ann, Jen a Mair ac enillwyd y raffl gan Gwyneth. Tra fod pawb yn mwynhau eu paned aeth y llywydd drwy ohebiaeth y mudiad.

Ein cinio Nadolig fydd y mis nesaf yn Bryn Teg, Llanrug, bys yn cychwyn am 7 o'r gloch o waelod Bethel.

Cymdeithas Lenyddol Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan y Llywydd, Dr J. Elwyn Hughes, ac yn arbennig y siaradwr, Dr Bruce Griffiths, Prifysgol Bangor. Gan mai ef oedd cyd-Olygydd Geiriadur Newydd yr Academi, yn naturiol ddigon trin geiriau oedd testun y sgwrs. Diolchwyd iddo gan y Llywydd a chyhoeddwyd mai Dathlu'r Nadolig yng ngofal yr aelodau fydd y cyfarfod nesaf a hynny yn Festri Cysegr ar Rhagfyr 8fed. Os oes unrhyw un o'r aelodau yn dymuno cymryd rhan, rhowch wybod i Glenys.

SUL Y COFIO



Er y tywydd stormus denwyd cynulleidfada deilwng i'r Gwasanaeth Coffa dan arweiniad y Parch. Marcus Robinson. Yn cymryd eu lle wrth y gofodail roedd aelodau o Flwyddyn 6 yr Ysgol dan arweiniad Nia Guiallme a Dylan Parry. Bydd eu cyfraniad yn hir aros yn y cof. O enau plant heddiw clywyd yr hen eiriau. Mor gyfarwydd yw'r geiriau hyn o flwyddyn i flwyddyn ond yn natganiad eglur y plant treiddiodd yr ymbiliad tu hwnt i'r geiriau i gydwybod pob un ohonom. Ni ddylasai amser ballu dyletswydd unrhyw genhedlaeth i gofio a pharchu aberth y rhai a aeth dros "ein hyfory ni."

Yr oedd eleni yn achlysur arbennig ynglyn â'r Gofeb ger yr ysgol. Erbyn hyn mae atodiad at y golofn sydd yn rhestru y rhai â gollwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn cyd-orwedd erbyn hyn, ar lechen hardd, mae enwau yr 20 a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Nifer sylweddol o gofio mai pentref bychan iawn fuasai Bethel yr adeg hynny. Llwyddwyd i ddenu grant o'r Loteri Treftadaeth tuag at y gost a diolch i Dylan Griffiths a'i gwmni am y gwaith celfydd a graenus o greu a gosod.

Wedi datganiad graenus y plant o Salm 46, canwyd emyn draddodiadol Eifion Wyn, "Efengyl Tangnefedd..". Cafwyd gweddi gan Joe Bennett. Roedd rhyw awyrgylch o uno yn y ddau funud o ddistawrwydd. Yna datganiad Cai Moss o'r 'Last Post' ar y corn. Pawb a'i feddyliau.

Gosodwyd naw o groesau ar y gofeb – un am bob un a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Yna ar ran plant y pentref gosodwyd torch ar gofeb colledigion y Rhyfel Byd Cyntaf gan y tri disgybl Millie Jones, Beca Roberts a Joe Bennett.

Yna gwahoddwyd mudiadau a theuluoedd i osod torchau.

Ar ran y pentref gosodwyd torch gan Emyr Jones. Yna torchau ar ran y Clwb Ffermwyr Ifanc, Clwb Snwcer, Merched y Wawr, Clwb Bro Bethel a Phwyllgor y Neuadd Goffa. Yna gosodwyd torchau personol ar ran teuluoedd Robert Thomas Griffith a Hughie Thomas o gyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Teg yw nodi enwau y disgyblion a gyfrannodd mor raenus at y gwasanaeth : Millie Williams, Owain Evans, Haf Williams, Gethyn Hughes, Cai Moss, Tyler Jones, Sam Roberts Jones, Erin Roberts, Cerys Roberts, Joe Bennett, Beca Roberts a Millie Jones.



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN
WILLIAMS**
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



420

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Parhad BETHEL



Eisteddfod Bethel 2015

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, Hydref 17eg, 2015. Y beirniad cerdd eleni oedd Eysyllt Tudur o Lanrwst a'r beirniad llefaru oedd Bethan Lloyd Dobson o Garndolbenmaen. Arweinyddion y prynhawn oedd Deilwen Hughes a Lowri Ann gyda Manon Gwynedd a Ffion Owen yn arwain cyfarfod yr hwyr. Y cyfeilyddion oedd Helen Morris, Rhydian Price, Gethin Griffiths, Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Deilwen Hughes a Manon Gwynedd. Elan, Emma a Ffion oedd yn gyfrifol am ddsbarthu'r rhubanau i'r plant ieuengaf.

CANLYNIADAU

LLEFARU

Cylch Meithrin: Pawb yn cyd lefaru Siani Flewog Farus: Dosbarth Meithrin: 1. Megan; 2. Hari; 3. Osian a Rhiannon. Blwyddyn Derbyn: 1. Lleucu ac Owain; 2. Jac a Beca; 3. Cain a Sian. Blwyddyn 1: 1. Caio; 2. Max a Steffan; 3. Efa a Cadi. Blwyddyn 2: 1. Llyr; 2. Gruff; 3. Josh ac Erin. Blwyddyn 3 a 4: 1. Elis; 2. Iago ac Ifan; 3. Owain a Cadi. Parti Llefaru Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Parti Cwl. Parti Llefaru Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Y Nyrtars. Blwyddyn 5 a 6: 1. Iddon; 2. Cerys; 3. Gwawr. Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Celt. Blwyddyn 10-13: 1. Gwion Wyn. Parti Llefaru Uwchradd: 1. Parti Enfys. Darllen ar y Pryd Blwyddyn 7-13: 1. Gwion John; 2. Owain Llestyn a Gwion Wyn; 3. Ywain Emrys a Hari. Sgets (agored): 1. Grwp Ywain Emrys.

CANU AC OFFERYNNOL

Cylch Meithrin: 1. Pawb yn cyd-ganu Jac yn y Bocs. Dosbarth Meithrin: 1. Osian; 2. Wil; 3. Megan a Rhiannon. Blwyddyn Derbyn: 1. Lea; 2. Anna ac Owain; 3. Caio ac Ollie. Blwyddyn 1: 1. Cadi; 2. Steffan a Roxy; 3. Lisa. Blwyddyn 2: 1. Anna Rhodd; 2. Osian; 3. Gruff a Cadi. Blwyddyn 3 a 4: 1. Iago; 2. Cadi; 3. Ela ac Ifan. Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 1-6: 1. Gwawr; 2. Gruff. Parti Canu Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Parti Cwl. Unawd Alaw Werin Blwyddyn 1-6: 1. Gwawr; 2. Beca; 3. Llyr. Unawd piano Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Cadi. Unawd piano Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Owain; 2. Mari Buck Jones; 3. Millie a Mari Williams. Unawd Offeryn Cynradd: 1. Cai; 2. Owain; 3. Beca a Cadi. Parti Canu Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Y Nyrtars. Unawd Blwyddyn 5 a 6: 1. Tomos; 2. Gwawr a Beca; 3. Cadi a Cerys. Unawd Piano Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Gwenllian; 2. Heledd; 3. Ioan. Unawd Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Heledd. Deuawd Cynradd ac Uwchradd: 1. Gwenllian a Heledd. Offeryn heblaw Piano Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Elen; 2. Ywain; 3. Huw. Unawd Blwyddyn 10-13: 1. Gwion Wyn; 2. Emma; 3. Gwion John. Unawd piano Blwyddyn 10-13: 1. Rhydian. Unawd offeryn heblaw piano Blwyddyn 10-13: 1. Owain Llestyn; 2. Elen. Cân Gyfoes: 1. Gwion Wyn; Parti Canu Uwchradd: 1. Parti Manon.

ENILLWYR Y TLYSAU

Cwpan Arian (llefaru Cynradd): Iddon Jones
Cwpan Konica (llefaru Uwchradd): Gwion Wyn
Tlws Coffa Siân Robinson (darllen ar y pryd): Gwion John
Tlws Parc y Wern (Parti llefaru Cynradd): Y Nyrtars
Tlws Coffa Goronwy Jones (lleisiol Cynradd): Tomos Gibson
Tlws Coffa W.G. Ellis (piano Cynradd): Owain Roberts
Tarian Ael y Bryn (offerynnol Cynradd): Cai Moss
Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (lleisiol Uwchradd): Gwion Wyn
Tlws Coffa John M. Williams: (piano Uwchradd): Rhydian Price
Tlws Teulu Penparc (offerynnol Uwchradd): Owain Llestyn

Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Y Nyrtars

Tlws Coffa Annie E. Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Parti Enfys

Cwpan Teulu Llwyn yr Ardd (Rhyddiaith Agored): neb wedi cystadlu eleni

Tlwsau bach i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Siencyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel a Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

SEREMONI'R CADERIO

Ein beirniad llên eleni oedd y Prifardd Ieuan Wyn o Fethesda a braf oedd cael ei gwmni drwy gyfarfod yr hwyr. Yn dilyn ei feirniadaeth, y Prif Lenor Cynradd eleni oedd Cai Moss a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Moli Haf Roberts. Y ddau yn llawn teilyngdod - Y llenor cynradd yn derbyn Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Maldwyn John a Manon Gwynedd. Y llenor Uwchradd yn derbyn Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd dan ofal medrus Mr Geraint Elis. Millie India oedd Ceidwad y Cledd, Tomos Efans ac Elen Ifans yn chwythu'r Corn Gwlad, Elan Llwyd a Rhydian Price yn canu Cân y Cadeirio a Manon Gwynedd yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Millie, Haf, Erin a Cerys a cyfarchwyd y llenorion gyda phenillion, wedi eu cyfansoddi gan y beirniad, gan Jo Bennett.

CELF A CHREFFT

Y beirniad oedd Mrs Eirian Pritchard, Rhosbodruall. Unwaith eto cafwyd ymateb da i'r cystadlaethau celf a chrefft gyda nifer o eitemau creadigol iawn. Braf oedd cael arddangos y gwaith yn y Neuadd fechan ac eleni am y tro cyntaf cafodd gwaith aelodau 'Ti a Fi' ei gynnwys yn yr arddangosfa.

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn yr ysgol): Bryn Hughes

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Erin Roberts

Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Elen Llestyn

Ni chynhaliwyd noson ddawns eleni, ond penderfynwyd rhoi cyfle i'r ychydig rai oedd wedi cofrestru i berfformio ar ddechrau cyfarfod yr hwyr.

Dawnsio Unigol Cynradd: 1. Elan Llwyd. Dawnsio Pâr: 1. Lowri ac Elen. Grwp Dawns Blwyddyn 3 ac Iau: Loshin Pinc.

Diolch i bawb a fu'n cystadlu; i'r beirniaid am eu hamser, eu cyngor, a'u cwmni; i Athrawon a Staff yr Ysgol Gynradd a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau llên, arlunio, canu a llefaru unigol; i Adran Gymraeg Ysgol Brynrefail am eu cefnogaeth gyda'r gwaith llên Uwchradd; i'r holl wirfoddolwyr am ddod ymlaen i roi eu hamser prin i hyfforddi, arwain a chyfeilio; i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion ac i Bwyllgor y Neuadd Goffa am gael defnyddio'r Neuadd yn ystod yr wythnos. Diolch arbennig i swyddogion y Pwyllgor am sicrhau bod yr Eisteddfod wedi rhedeg yn esmwyth ac i ffrindiau a busnesau lleol am roddion tuag at y raffl a chostau'r Eisteddfod. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fod yn rhan o lwyddiant Eisteddfod Bethel 2015.

KERFOOTS EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT

Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec - mae rhywbeth i bawb yma!

Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

=====

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.

(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

=====

www.kerfoot's.com enquiries@kerfoot's.com

Tel: 01766 512256

Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

DRYSAU □ FFENESTRI A CONSERFATORIS UPVC

AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292



Tymhorau'r Flwyddyn Mae'r dydd erbyn hyn wedi cwttio yn arw, a fawr ddim o oleuni y dydd i'w gael a thymor y gaeaf ar ein gwarthaf. Cawsom ychydig o dywydd lled dda yn ddiweddar a hynny yn cwttio dipyn ar y tywydd gaeafol. Clywais y noson o'r blaen ar y radio ei bod yn addo rhyw ychydig o eira ar ben yr Wyddfa ac yn addo iddi oeri cryn dipyn. Mae gweithgareddau y gaeaf i gyd wedi dechrau a llawer un dan anwyd trwm. Ni chafwyd llawer o eira yn ystod y gaeaf diwethaf, gan obeithio yn fawr mai felly y bydd hi eleni a gobeithio y cawn nerth ac iechyd i wrthsefyll yr oerni. Cadwch yn gynnes.

Mae pobol yn dweud eleni mai pethau hen ffasiwn erbyn hyn ydyw y cardiau Nadolig. Efallai bod hyn yn gywir, ond nid wyf yn hoffi meddwl am Nadolig heb gerdyn ychwaith, er nad wyf yn or-hoff o'u hysgrifennu.

Mae'r plantos oll yn edrych ymlaen ers dyddiau bellach am y diwrnod mawr ac yn methu ei weld yn dod yn ddigon buan a ninnau fel oedolion am iddo fynd drosodd, gan y bydd y dydd yn ymestyn unwaith eto a chyn inni droi, bydd tymor y gwanwyn hefo ni, lle y bydd natur ar ei orau.

Cofion Gan fod dipyn yn cwyno ar hyn o bryd yr ydym yn anfon ein cofion gorau atynt, a gobeithio am lwyr iechyd iddynt. Cadwch eich ysbryd a'ch ffydd, a gwyliwch ar ôl eich hunain.

Cofion annwyl iawn hefyd at Mrs Megan Morris (Minfordd gynt) sydd yn cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Gobeithio dod i'ch gweld cyn y Nadolig. Cofion yr ardal atoch.

Dathlu'r Cant ac Un Yn yr Eco y mis diwethaf mi fu imi grybwyll parti pen-blwydd Mrs Priscilla Williams, neu fel mae'r plant yn ei galw, Anti Cil. Bu iddi ddathlu ei phen-blwydd ar Sadwrn 24 o Hydref. Bu imi alw yno a dyna lle yr oedd yn eistedd yn ei chadair fel brenhines ac yn mwynhau ei hun yn ei hwyliau gorau a digon o fwyd i'r pentref i gyd i'w fwyta. Ar y diwrnod yr oedd yn fore budr iawn ond ar ôl un o'r gloch daeth yr haul allan a hynny yn ychwanegu at y dathliad. Pan yn gofyn sut yr oedd, y ddau air a ddaeth allan ganddi oedd ardderchog a champion. Yr oedd yn ei hwyliau gorau hefo llu o gardiau ac anrhegion o'i chwmpas. Dydd o fwynhau a dwyn llawer o atgofion ydoedd. Eirwen ac Alwyn yn hynod ofalus ohoni fel ag y maent wedi bod ers blynyddoedd bellach a hithau yn methu â'u canmol ddigon.

Yr ydym fel ardal yn rhoi diolch arbennig i Eirwen ac Alwyn am y ffordd mae'r ddau wedi gofalu am eu mam. Mae eu gofal wedi bod yn fawr trosti ac yn dal i fod.

Diolch yn fawr i bawb ym Mro'r Eco am gofio y diwrnod mawr. Yn awr, Anti Cil, ymlaen am y 102. Gan ddymuno iechyd, hapusrwydd a bendith Duw fo arnoch yn y dyddiau a ddaw.

Dathlu Pen-blwydd

Cymdogion y Bigil ddaeth eto ynghyd
O'r oerfel i'r Wylfa, i'r bwthyn bach clyd,
Er mwyn dymuno Pen-blwydd Hapus i chi,
Cyfarchion a chardiau, anrhegion diri.

Boed i chi hapusrwydd ar ddydd eich pen-blwydd
Wrth ddathlu 'da'ch ffrindiau mor llawen, mor rhwydd,
Wrth yfed y 'Brandy' a bwyta llond bol,
Ond gofawch, 'rhen Cilla, rhag i chi droi'r drol!

Diolch i'ch teulu am fod yn asgwrn cefn,
Ac Alwyn ac Eirwen am gadw y drefn,
A diolch am iechyd, a hir oes i chi,
Sef dyna ddymuniad pawb ohonom ni!!

John V. Morris
Rhianfa, 24.10.2015

Diolch Ar achlysur pen-blwydd eu mam yn 101 mlwydd oed dymuna Alwyn ac Eirwen, Wylfa, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a llu o ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion, arian a galwadau ffôn. Diolch i Ann am y gacen ben-blwydd, yr oedd yn dda iawn.

TM JONES
SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellder)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmereydd@btinternet.com

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com



Llongyfarchiadau mawr i Hannah Hughes, a oedd yn un o ser y rhaglen 'Ar y Dibyn' (gweler ei hanes ar dudalen 32 Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Gwasanaethau y Capel

Ar Rhagfyr 6ed am 2.00 p.m. Y Parch Marcus Robinson ac yn dilyn am 3.00p.m. cynhelir cyfarfod swyddogion.

Rhagfyr 20 am 5.30 p.m. Cynhelir Oedfa Nadolig gyda aelodau, plant, pobl ifanc, cyfeillion a Gweinidog yr eglwys. Bydd paned yn dilyn y Gwasanaeth, nos Sul, Rhag 20.

Ar Ddydd Nadolig bydd oedfa Gymun am 10.00a.m. i'r Ofalaeth gyfan yng Nghapel Cysegr, Bethel.

Brysiwch wella Dymunwn yn dda i Ifor Hughes sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Eryri, ac i Gwenllian Daniel sydd wedi cael damwain wrth ferlota a thorri esgyrn yn ei throed.

Tynfa Caeathro Dyma ganlyniadau mis Tachwedd: £40 (107): Keith Jones, Bodawel; £25 (54): Harriet Roberts, 5 Erw Wen; £15 (64): Alun Roberts, Monfa; £5 (43): Gwenda Jones, Plas Glan Gwna.

Les Miserables Daeth newyddion i law fod Betsan Ceiriog wedi cymeryd rhan mewn cynhyrchiad o Les Miserables yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd! Llongyfarchiadau! Beth am y stori yn llawn?

Clwb y Merched Ar nos Iau, Hydref 22ain, cafwyd cyfarfod hynod o lwyddiannus o Glwb y Merched dan lywyddiaeth Marian Hughes. Cawsom gwmni Hâf Thomas o Lanrug, gyda chymorth ei mam, Ann, a'i ffrind Gwenda ac yn ei ffordd annwyl ei hun bu Hâf yn dangos i bob grŵp yn ei dro sut i wneud cerdyn Nadolig cywrain. Yn y cyfamser cawsom gyfle i weld llyfrau lloffion Hâf ar sut y mae hi, dros y blynyddoedd, wedi codi dros £48,000.00 i achosion da. Mae'n swm anferth a chlod mawr i Hâf am hynny. Trwy werthiant cardiau ar y noson gwnaed elw o dros £100.

Bydd Cinio Nadolig y Clwb yng ngwesty Bron Menai ar nos Wener, Rhagfyr 4ydd (yr amser i'w gadarnhau).

Bob Owen, Croesor Yn y llyfr Bywyd Bob Owen gan Dyfed Efans (Gwasg Gwynedd. 1977) gwelir cyfeiriad at briodas Bob Owen yn 1923, gyda Nel, merch fferm o Gaeathro. Ganwyd iddynt ddau o blant, Nanw y cyntaf anedig, a Owen Tudur a ddaeth yn ddringwr profiadol, nid yn unig yn Eryri ond hefyd yn yr Alpau. Oes gan ddarlennwyr yr Eco unrhyw wybodaeth am wreiddiau Nel, neu hanes y teulu?

Cais

Dewch â newyddion yn fuan i rifyn nesaf yr Eco, fydd yn newydd o'r wasg cyn y Nadolig.

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI
http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

CWMYGLO



Diolch Dymuna Sioned, Andrew a Bethan, Vaughn, Lindsey a Brent, Glenys, Arwyn, Llion, Alwyn a Julie a theuluydiweddar Dafydd Jones (Dafydd North Road) ddiolch o galon i'r ffrindiau a chynweithwyr am y caredigrwydd, y rhoddion at Help for Heroes, y cardiau a'r holl gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth sydyn. Diolch i'r Parchedig John Pritchard a Gwynfor o E.W. Pritchard, Trefnwyr Angladdau, am eu trefniadau trylwyr, caredig a chyfeillgar. Carem fel teulu hefyd ddiolch yn ddiffuant i'r nifer fawr o ffrindiau ddaeth i'r angladd i dalu'r gymwynas olaf i Dafydd.

Undeb y Mamau I ddechrau tymor y Nadolig cyfarfu'r aelodau a'u ffrindiau ym Mron Menai, Caernarfon, am un o'r gloch Tachwedd 18 a chafwyd cinio blasus iawn. Mwynhaodd pawb eu hunain. Diolchwyd i Auriel Howells am drefnu'r achlysur gan y Rheithor, Canon Roger Donaldson. Bore Sadwrn, Tachwedd 28, rhwng deg o'r gloch a hanner dydd yn Feed my Lambs. Mins Peis Te/Coffi Raffls. Pnawn Mawrth, 15 Rhagfyr, am ddau o'r gloch gwasanaeth a Carolau yn Eglwys Sant Mair Caernarfon.

Ysgol Cwm y Glo

Rydym wedi bod yn brysur y tymor yma. Mae gwaith y tymor wedi bod ar 'Perfformwyr'. Rydym wedi bod yn rhan o gynllun Hyrwyddwyr Ifanc Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym wedi trefnu i gwmni 'Bash Street Theatre' roi sioe 'Y Rhith Olaf' ymlaen yn yr ysgol. Roedd y noson yn llwyddiannus ac yn llawn hwyl. Diolch i Rhian Cadwaladr am ein helpu i drefnu pethau.



Lluniau o'r plant yn hysbysebu'r 'Rhith Olaf', Seremoni Siarter Iaith

Diolch i 'Cyfeillion' yr ysgol am drefnu noson Calan Gaeaf wych i ni. Roedd pawb wedi mwynhau.

Rydym wedi trefnu diwrnod o hwyl i godi arian i elusen 'Plant Mewn Angen'. Roedd yr ysgol yn lliwgar iawn efo pawb wedi gwisgo i fyny ar y diwrnod.

Mae Erin a Llio wedi bod yn cynrychioli'r ysgol yn Seremoni Wobrwy Siarter yr Iaith Gymraeg. Rydym wedi llwyddo i ennill y wobr arian. Rydym yn falch iawn o hyn. Diolch i Mrs. Donna Hughes, y llywodraethwr sydd yn gyfrifol am y Siarter Iaith, am fynd ag Erin a Llio i'r seremoni yng Nghaernarfon.

Rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Bydd noson Bingo a Ffair Nadolig yn yr ysgol nos Iau, 3 Rhagfyr, a bydd ein cyflwyniad Nadolig p'nawn a nos Lun 7 Rhagfyr. Mae croeso i bawb ymuno yn y dathlu efo ni.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580

Ffair Grefftau Cynhaliwyd y Ffair Grefftau flynyddol yn y Caban ar Dachwedd 14eg a'r 15fed. Roedd nifer dda o grefftwyr lleol wedi dod i arddangos eu cynnyrch a chafwyd deuddydd llwyddiannus iawn.

Cofion Anfonwn ein cofion at Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, sydd heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar ac wedi bod am

Yr Eglwys Bresbyteraidd Oedfaon Rhagfyr

6 am 5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

13 am 5: Parch Ddr Huw John Hughes, Porthaethwy

20 am 2: GWASANAETH NADOLIG dan arweiniad y Gweinidog a'r Aelodau gyda lluniaeth yn dilyn ym Mwyty Caban

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—


Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Hen Lyfr Cownt Chwarel Dinorwig

Daeth y llyfr i warchodaeth Gareth Roberts yng nghanolfan Menter Fachwen ar y stryd fawr yn Llanberis, a chefais innau’r cyfle i bori drwyddo. Mae’n dyddio o 1924-25, ac y mae’r tudalennau (gweler llun) wedi eu rhifo o 594 i 1859 er fod rhai rhifau wedi eu hepgor. Mae enw gweithiwr gogyfer a phob rhif, gyda disgrifiad o’i waith, y nifer o ddyddiau a weithiai ym mhob wythnos o bob mis rhwng Awst 1924 ac Awst 1925. Weithiau, ond nid bob amser, mae’n cynnwys taliadau yswiriant ac ysbyty. Weithiau hefyd ceir enwau partneriaid, ond llythrennau cyntaf eu henwau yn unig, nid enwau llawn.

Rhif 598 yw John Hughes, ac wrth ochr ei enw ceir “started as instructor to boy rubblers August 11th 1924.” Ei bartner oedd Owen Evan Owen. Y cwbl a wyddom am Samuel Davies (rhif 600) oedd iddo gychwyn gweithio ar Ragfyr 1af 1924. Roedd William Thomas Owen (rhif 606) yn gweithio gydag Edward Williams, ac yn ystod mis Mai 1925 ymunodd Ellis Jones o Upper Garret. Mae symudiadau gweithwyr o bonc i bonc yn digwydd, a cheir enwau ar dudalennau yn dweud iddynt symud i bonc arbennig neu o bonc arbennig. Yn anffodus, does dim posibil dweud oddi wrth y Llyfr Cownt ym mha bonc mae pob gweithiwr wedi ei leoli.

Yng nghanol cyfrifon amryw o weithwyr ceir y gair ‘holidays’ wedi ei sgwennu – ond nid yw pawb yn amlwg yn derbyn gwyliau, neu o leiaf does dim cofnod ohonynt! Ceir hefyd ambell gofnod am ddamweiniau. Ar ddydd Sadwrn, 29ain o Dachwedd cafodd Gareth Lewis (635) niwed i’w lygad: “slate splinter entered left eye at 10.45 a.m.” Ond roedd yn ei waith erbyn y dydd Llun canlynol. Fu Hugh Griffith (637) ddim mor ffodus. Cafodd ddamwain (“injured” yw’r unig ddisgrifiad) ar ddechrau Gorffennaf 1925 a bu’n absennol o’i waith am wythnos. Collodd dair wythnos yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd salwch a marwolaeth ei dad.

Anodd gwybod pam fod manylion personol wedi eu cynnwys am rai gweithwyr, ond dim o gwbl ar gyfer y mwyafrif. Ceir cyfeiriad llawn John Richard Williams (980), sef Chapel Street,

Fan Gig y teulu

Yn dilyn y llun o’r ‘hen siandri’ ger gorsaf betrol Pen y Gwryd, anfonodd Margaret Roberts, Caernarfon (Brynrefail gynt), lun o fan gig a fu ym meddianmt ei theulu ym Mhenybryn, Fachwen ers talwm. Morris Cowley de luxe a gofrestrwyd gyntaf ar 13 Awst 1924 oedd y fan, a’r perchnogion cyntaf oedd Isaac Parry a’i Feibion, Cigyddion o Easdate Street, Caernarfon. Roedd yn costio £200 a chost cludiant o £3-10-0. Prynodd tad Margaret hi’n ail-law ar y 5 Ebrill 1927. Cigydd oedd Ioan Roberts hefyd, felly fu dim newid yn yr hyn a gariai’r Morris Cowley! Defnyddiwyd hi yn yr ardal hyd Ionawr 1930, pan brynodd Ioan Roberts fan newydd. Ond parhaodd brawd Ioan, sef Tom Roberts, i ddefnyddio’r fan (eto fel fan gig) hyd Hydref 1933. Ei rhif cofrestru oedd CC4849. Mae’r llun yn dyddio o 1927, ac fe’i tynnwyd yn Stabla (Craig y dinas), a hynny gan rhyw ffotograffydd o Indiad a oedd yn mynnu pris rhy ddrud am y fraint o gael ei dynnu. Yn y diwedd, ac ar ol cryn drafod, cytunwyd ar ‘bris’, sef chops o gefn y fan i dalu am y llun!

628 Wm. J. Evans

1924-25

1st Week

2nd Week

Insurance

MONTH ENDING	JOUREYMEN	RAN	PARTNERS	M.	T.	W.	Th.	F.	S.	Total Days	Costs	M.	T.	W.	Th.	F.	S.	Total Days	Costs	H.	U.	Remarks	
1924																							
Aug. 9...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Sept. 6...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Oct. 4...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Nov. 1...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Nov. 29...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Dec. 27...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
1925																							
Jan. 24...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Feb. 21...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Mar. 21...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Apr. 18...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
May 16...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
June 13...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
July 11...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2
Aug. 8...	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	1/2	5	20/5	1/2	1/2	1/2	1/2

Newborough, a’r ffaith ei fod yn 31 mlwydd oed gyda gwraig a thri o blant. Mae’n debyg ei fod yn aros yn y Barics yn ystod yr wythnos. Beth bynnag oedd ei amgylchiadau, gadawodd y chwarel ddiwedd Rhagfyr 1924.

Bywyd caled oedd yn wynebu’r rhan fwyaf o chwarelwyr, yn dioddef damweiniau a salwch difrifol. ‘Fireman’ oedd William Lewis (982). Bu’n wael gydol fis Tachwedd 1924, ac er iddo ddychwelyd i’r chwarel am ddeg wythnos (gydag amryw ddyddiau i ffwrdd), roedd yn cael ei gofnodi’n wael eto erbyn canol Chwefror 1925, ac ni ddaeth yn ol i’w waith. Cofnodir ei farwolaeth ar y trydydd dydd Iau yng Ngorffennaf 1925.

Tua diwedd y Llyfr Cownt cofnodir enwau bechgyn sy’n cychwyn eu gyrfa yn y chwarel. Erbyn y cyfnod hwn mae’n amlwg fod yn rhaid bod yn dair-ar-ddeg oed cyn cychwyn gweithio. Ganed John Parry (1857) ar 30ain o Hydref 1909, gan ddechrau fel “boy rubbler” ym mis Ionawr 1925.

Ar y tudalennau olaf un ceir cofnod o waith arbennig yn cael ei wneud. Bu TGH yn “clearing fall at Panws”, JW a WDO yn “levelling loco road”, a TOJ yn “dismantling shelter”. Ac i’r rhai nad ydynt yn adnabod enwau’r gwahanol bonciau, mae darllen am TEJ,TJ ac OWP yn “shifting sidings in Australia” a JL ac RG yn “making drainage in Egypt” yn swnio fel anturiaethau anhygoel!

Llanberis yn Malvern.

Anfonwyd yr adroddiad canlynol gan John Alan Roberts (Llanberis gynt). Mae’n adrodd hanes ymweliad a Malvern yn Lloegr (mae’r enw yn deillio o’r Gymraeg, sef Moel Fryn) a’r syndod o weld enw Llanberis yno. Dyma’r hanes: “Tra ar wyliau yn ardal Malvern eleni daeth Dafydd Williams o Frynrefail a minnau ar draws enw pur anghyffredin i dŷ yn y rhan yma o’r wlad. Llanberis oedd yr enw ar wal tu allan i’r tŷ. Bum yn ymchwilio i’r enw yn y lleoliad yma. Bum mewn cysylltiad gyda Cymdeithas Hanes lleol, a bum yn tyrchu drwy sawl cyfrifiad-ond chafwyd dim gwybodaeth. Lleolir y tŷ sylweddol ar gornel Priory Road ac Avenue Road yn y dref. Mae’r ardal yn llawn o dai mawr, a fu ar un cyfnod yn dai i feddygon, deintyddion a byddigion. Hefyd lleolwyd ysgolion bonedd yn yr ardal.

Pam Llanberis? Awgrymwyd naill ai bod un o frodorion Llanberis wedi bod yn byw yma, neu efallai bod rhywun wedi bod ar ei wyliau yn Nyffryn Peris ac wedi gwirioni efo’r pentref, ac wedi mabwysiadu yr enw.” A oes gan ddarllenwyr yr Eco eglurhad pellach?



William Williams y Ffotograffydd

Gofynnais yn y rhifyn diwethaf a oedd mwy o luniau gan William Williams yng nghartrefi rhai o'r darllenwyr – a daeth ymateb gan Mrs Mowll, Penisarwaun yn adrodd fod ganddi lun o'i mam yn eneth fach yn dyddio o 1899 wedi ei dynnu ganddo. Ac ar gefn y llun roedd yr enw 'Williams'. Ond roedd yno ddau gyfeiriad – ac nid Adeiladau'r Paternoster yng Nghaernarfon oedd yr un ohonynt! Oedd, roedd cyfeiriad yng Nghaernarfon, sef 24 High Street, ond roedd yr ail yn dipyn o sioc: 154 Conway Street, Birkenhead.

Cyfeirlyfrau Gogledd Cymru yw'r mwyafrif sydd ar gadw yn yr Archifdy, ond roedd un yn dyddio o 1899. Mae Bennett's Business Directory yn cynnwys trefi yn swydd Gaer a Glannau Merswy. O dan Birkenhead rhestrir wyth o ffotograffwyr, ac yn eu plith roedd W. Williams, 154 Conway Street. Dyma fymryn yn ychwanegol o wybodaeth am y ffotograffydd hwn oedd a chysylltiadau a'r fro hon.



Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk
★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau
★ Printiadau



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Odyn Copr

Parc Padarn


Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda

Ffon-871366


HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159


Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebst- lisa.huw@btinternet.com

Pryd i bawb

Arlwyo at bob achlysur Yn ynrhyw leoliad Bwffe Blasus o Safon
PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD•PARTI•TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN
CERID MACKINNON

(01286) 673190
Symudol 07774 925502

FFERM FÊL YR WYDDFA

NADOLIG LLAWEN


A BLWYDDYN NEWYDD DDA

SNOWDON HONEY FARM

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon- 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn


GWIN A MEDD


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Llongyfarchiadau mawr i Ceinwen Jones, Clwt y Bont, am ennill y Fedal Lenyddol yn eisteddfod y pentref eleni, a'r wobwr gyntaf am wneud llun portread o Gwenlyn Parry. Da iawn chdi. Cariad mawr oddi wrth taid a nain a'r teulu.

Neges Nadolig Gan nad wyf fi, Beti Roberts o Rhydfadog, ddim yn gyrru cardiau Nadolig eleni, rwyf yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm teulu a ffrindiau a'm cymdogion.

Diolch Dymuna Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, y cardiau a'r rhoddion (Gwynfa Home, Caernarfon) a dderbyniodd er cof am ei chwaer Mrs Mary Evans (Clwt y Bont gynt). Diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion.

Eglwys Crist Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu y Dr Huw Tegid Roberts o Langefni i'n Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Roedd Huw, ynghyd â'i frodyr, Ynyr ac Eurig, yn ffyddlon iawn ar foreau Sul pan oedd eu tad, Y Canon Tegid, yn gwasanaethu yma yn Eglwys Crist. Cafwyd pregeth amserol gan Huw, yn union fel ei sgorsiau plygeiniol "Munud i Feddwl" ar y "Post Cyntaf" Radio Cymru. Wedi i blant yr ysgol Sul gyflwyno eu rhan, cyflwynodd Huw lyfrau am ffyddlondeb iddynt. Dr William Munro oedd yng ngofal y gwasanaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd ein Diolchgarwch.

Llongyfarchiadau i Catrin Llewelyn Gruffudd, Clwt y Bont, ar ddod yn gyntaf yng nghystadlweth Cerddor Ifanc

y Flwyddyn Clybiau Rotari Môn ac Arfon.

Sul y Cofio Er gwaethaf y tywydd garw, daeth torf fawr at y Gofeb yn y pentref ar Sul y Cofio yn ddiweddar. Diolch i'r holl fudiadau a osododd dorch, i'r Band am eu cyfraniad, i'r parch John Pritchard am ei ddarlleniadau a'i fendith ac i bawb a ddaeth i dalu teyrnged.

Llongyfarchiadau i Elin Dafydd ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Deiniolen - Da iawn ti.

1af Unawd Corn; 1af Grŵp Offerynnol (teulu twins); 1af hefo pedwarawd; 2ail Unawd canu.

Cyngerdd Nadolig Cynhelir cyngerdd Nadolig Eglwys Crist eleni ar nos Sul, 6ed o Ragfyr, am 6.30 yr hwyr. Gweler posteri mewn siopau lleol am fwy o fanylion.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch Mi fydd noson rhoi goleuadau Nadolig y pentref ymlaen yn cael ei chynnal ar nos Wener, Tachwedd 27ain eleni. Dewch yn llu i gyd ganu carolau a mwynhau ambell i fins pei.

Fe fydd groto Siôn Corn yn agored yn Tŷ Elidir eleni ar y 12fed o Ragfyr gyda disgo i'r plant yn ogystal, i gychwyn am 5.00.

Llongyfarchiadau gwresog i Glain Hughes, Coed Mawr, ar ei llwyddiant yn ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Cyfarchion Nadolig Gan na fydd Mrs Clarice Roberts, Tan yr Henffordd, Clwt y Bont, yn anfon cardiau Nadolig eleni mae yn dymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd llawn bendithion i'w chymdogion a ffrindiau oll.

SUL Y COFIO



Efa Jên, plentyn prynhawn, a Llio Jên, plentyn bore, a gafodd eu dewis y flwyddyn yma i roi torch ar y gofgolofn. Dyma lun ohonynt yn cyflawni'r dasg er gwaetha'r tywydd mawr. Da iawn chi blant.

Mae staff a phwyllgor y cylch yn dymuno Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda i bawb a gobeithio y daw Siôn Corn â llawer o anrhegion da i bob plentyn y pentref.

Cylch Meithrin Deiniolen Noson lwyddiannus iawn oedd noson tân gwyllt Cylch Meithrin Deiniolen eto eleni. Braf iawn oedd gweld llawer iawn o bobl a phlant yn dod i fwynhau a dathlu'r noson. Diolch i bawb am eich cefnogaeth! Diolch arbennig i Gŵyl Deiniolen a'r Cylch am eu cyfraniad hael ac i bawb a wnaeth ein helpu ar y noson. Ni fyddai'r noson wedi bod yn llwyddiannus heb eich cefnogaeth. Bydd yr elw a wnaethpwyd yn cael ei ddefnyddio i brynu adnoddau i'r Cylch er budd y plant. Gobeithiwn eich gweld i gyd y flwyddyn nesaf!

Oedfaon Cefnywaun ac Ebenezer Rhagfyr 2015

- 6 - Gweinidog am 10 y bore
- 13 - Parch Gwyndaf Jones am 5 yr hwyr
- 20 - Gweinidog 10 y bore a 5 yr hwyr
- 27 - Dim oedfa

SEINDORF IEUENCTID DEINIOLLEN

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Fandiau Ieuencid Deiniolen. Dydd Sadwrn y 3ydd o Hydref roedd y Seindorf Ieuencid, o dan arweiniad Osian Tomos, wedi derbyn gwahoddiad i gynhadledd flynyddol Sefydliad y Merched. Perfformiodd yr Ieuencid raglen fywiog iawn i gynulleidfa o dros 100 o ferched. Derbyniwyd croeso cynnes ac ar ddiwedd y cyngerdd roedd y gynulleidfa ar eu traed.

Bythefnos yn ddiweddarach roedd y Band Iau a'r Band Ieuencid yn cymryd rhan yng nghyngerdd blynyddol Seindorf Arian Deiniolen. Roedd y Band yn dathlu carreg filltir go arbennig yn 180 oed. Cafwyd noson i'w chofio yn Neuadd Dyffryn Ogwen gyda Chôr Ieuencid Môn a Meinir Wyn Roberts hefyd yn perfformio. Dyma'r tro cyntaf i Fand Iau Deiniolen gymryd rhan yn y Cyngerdd Blynyddol a hon oedd noson olaf Llio Tomos wrth y llyw fel arweinydd. Mae Llio wedi bod yn arwain y Band Iau ers saith mlynedd a dderbyniodd Llio flodau a cherdyn o ddiolch gan aelodau'r band a'r pwyllgor am ei gwaith. Gareth Williams, aelod o Fand Deiniolen, fydd arweinydd newydd y Band Iau. Pob lwc iddo wrth ei waith. Dydd Sadwrn y 24ain o Hydref roedd nifer helaeth o fand Ieuencid Deiniolen yn cymryd rhan yn Eisteddfod Deiniolen a daeth llawer o lwyddiant i'w rhan. Llongyfarchiadau mawr iddynt!

I goroni cyfnod prysur i'r Band Ieuencid, braf oedd cael croesawu un o arweinyddion bandiau pres gorau'r byd, sef arweinydd Band Tredegar Ian Porthouse i Ddeiniolen. Dyma'r ail waith i Ian ddod i'r Hen Felin yn dilyn y diwrnod llwyddiannus a gafwyd fel rhan o Ysgoloriaeth Iwan Williams. Roedd yr Hen Felin yn llawn o ieuencid ac roedd Ian yn llawn edmygedd o'r plant. Dywedodd wrth y wefan boblogaidd 4 bars rest,

"Mae'n braf dod i Ddeiniolen i weithio efo criw arbennig o bobl. Mae yna dalent mawr yn y bobl ifanc ac maent yn cael eu dysgu gyda gofal ac ymroddiad. Pob lwc iddynt yn y gystadlweth."

Diolch i bawb a gynorthwyodd i wneud y diwrnod yn llwyddiant. Roedd y diwrnod yn rhan o baratoadau y Band Ieuencid tuag at Bencampwriaeth Gogledd Cymru yn Rhuthun ar yr 21ain o Dachwedd lle byddant yn cystadlu yn y brif adran Ieuencid. Braf yw croesawu aelodau newydd i'r rhengoedd sef Elan, Hawys, Nanw, Grisial, Morgan ac Iwan fydd yn cystadlu gyda'r band am y tro cyntaf yn Rhuthun.

Bydd gweithgareddau y Band Ieuencid a'r Band Iau am eleni yn dod i ben yn dilyn eu Cyngerdd Nadolig Blynyddol fydd yn cael ei gynnal ar nos Lun, 7fed o Ragfyr, yn Festri Capel Ebeneser, Deiniolen am 6.30 yh. Dewch draw i gefnogi, mae croeso cynnes i bawb.

Ysgol Gwaun Gynfi - Eisteddfod Deiniolen 2015



Mac Hughes – Bardd y Gadair yn yr Eisteddfod. Enillodd Mac y gadair â chopi o'i gerdd am Yr Hydref ac yn ychwanegol ysgrifennodd y beirniad, Hilma Lloyd Edwards, gerdd iddo i'w longyfarch.



Tryfan Jones
1af – unawd adrodd, 1af – unawd canu, 1af – gwnïo, 2ail – ysgrifennu stori.
Tlws am y perfformiad gorau i blant Blwyddyn 2 ac iau.



Elin Dafydd Evans
1af unawd corn, 1af – grŵp offerynnol, 1af – grŵp band, 2ail – unawd canu.



Enillwyr adran arlunio



Enillwyr adran gwnïo



Plant y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol.



Côr y Knole Academy o Sevenoaks yng Nghaint, De Lloegr, yn canu detholiad o ganeuon yn Ysgol Gwaun Gynfi ar ddydd Gwener, Tachwedd 6ed, 2015. Cafwyd datganiad arbennig ganddynt ac roeddent hwythau yr un mor falch o gael clywed plant yr ysgol yn canu Hawl i Fyw, Ynys Llanddwyn a Harbwr Diogel. Cafodd y plant ganmoliaeth mawr gan ein ymwelwyr. Llongyfarchiadau gwresog iddynt a diolch yn fawr i Lois Eifion am eu hyfforddi.

Bu amryw o blant Ysgol Gwaun Gynfi yn ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd yn ystod gwyliau'r haf. Maent wedi darllen llawer o lyfrau – da iawn bawb. Yn y llun gwelir y plant gyda'u medalau. Y plant yn y llun yw: Rhes gefn: Erin Jones, Yasmin Griffith, Mac Hughes, Sam Booth, Kenzie Hughes, Lily Rooney, Elin D. Evans. Rhes flaen: Erin Wyn Williams, Owen M Owen, Gwion Thomas, Harri Booth, Hayley Hughes, Llion Thomas, Iwan Davies.

Noswyl y Nadolig

Bydd gwasanaeth Cymraeg y Nadolig yn Eglwys Llandinorwig ar Noswyl y Nadolig (Rhagfyr 24ain) am 6 o'r gloch yr hwyr. Yn gwasanaethu bydd y Canon Idris Thomas. Croeso cynnes i bawb

EISTEDDFOD DEINIOLLEN

Hoffai pwyllgor Eisteddfod Deiniolen ddiolch i Marina Bryn Jones, Penisarwaun, am ei hanerchiad difyr iawn fel Llywydd cyfarfod yr hwyr yn yr Eisteddfod, ac am ei rhodd hi, a'r rhodd

er cof am ei thad, Evan Bryn, gan y teulu. Diolch yn fawr hefyd i'r unigolion, y cwmnïau, y sefydliadau a'r ymddiriedolaethau niferus am eu rhoddion hwythau i'w gwneud yn bosibl i gynnal yr Eisteddfod eleni.



Canlyniadau Llwyfan Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch 2015.

Canu Ysgol Feithrin: 1. Callum Evans
Llefaru Ysgol Feithrin: 1. Callum Evans
Canu Dosbarth Derbyn: 1. Anian
Llefaru Dosbarth Derbyn: 1. Anian
Canu Blwyddyn 1 a 2: 1. Efa Jones a Tryfan Jones; 2. Ben Bolton
Llefaru Blwyddyn 1 a 2: 1. Tryfan Jones; 2. Efa Jones; 3. Ben Bolton
Canu Blwyddyn 3 a 4: 1. Elliw Tate
Canu Blwyddyn 5 a 6: 1. Dafydd Bean; 2. Elin Dafydd
Llefaru Blwyddyn 5 a 6: 1. Dafydd Bean; 2. Ioan Bean
Deuawd Blwyddyn 6 ac iau: 1. Ioan a Dafydd Bean
Unawd Cerdd dant Blwyddyn 6 neu lai: 1. Dafydd Bean
Alaw Werin Blwyddyn 6 neu lai: 1. Dafydd Bean; 2. Ioan Bean
Canu Emyrn Blwyddyn 6 neu lai: 1. Ioan Bean; 2. Dafydd Bean
Unawd pres Blwyddyn 5 a 6: 1. Elin Dafydd; 2. Ioan Bean
Grŵp Offerynnol Blwyddyn 6 neu lai: 1. Grŵp Offerynnol Seindorf Arian Deiniolen
Enillydd Cadair Eisteddfod i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gwaun Gynfi am waith Llenyddol: Mac Hughes
Enillydd tlws er cof am Mr Iwan Williams, Manceinion, am yr ymgais orau yn yr adran gerdd: Dafydd Bean
Enillydd tlws Crud yr Awel, Porth y Gogledd, am yr ymgais orau yn yr adran lenyddol blwyddyn 6 ac iau: Efa Jones
Enillydd tlws er cof am Mrs Nancy Edwina Jones am y perfformiad gorau i blant blwyddyn 2 ac iau: Tryfan Jones
Enillydd Cwpan er cof am y diweddar Mr W.J. Eames am yr ymgais orau yn yr adran Adran Arlunio i blant blwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi: Sam Booth
Enillydd tlws Mary a John am yr ymgais orau yn yr adran llefaru blwyddyn 6 ac iau: Tryfan Jones
Canlyniadau Cyfarfod y Nos
Dawnsio Unigol Blwyddyn 6 ac iau: 1. Erin Lewis
Llefaru Blwyddyn 7-11: 1. Beca Jones; 2. Glain Hughes; 3. Dylan Efans
Unawd Pres Blwyddyn 7-11: 1. Tomos Efans; 2. Bethan Moulty; 3. Morgan
Grŵp dawnsio disgo Ysgol Uwchradd ac/neu hyn: 1. Beca, Alis, Angharad, Ella, Elin
Unawd Offerynnol Blwyddyn 7-11: 1. Gwydion Rhys; 2. Tomos Efans; 3. Elliw Owen a Dylan Efans
Dawnsio Unigol Ysgol Uwchradd ac/neu hyn: Anna Lewis
Grŵp Offerynnol Agored: 1. Elin Dafydd, Dylan Efans, Tomos Efans
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod Blwyddyn 7-11: Gwydion Rhys
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod 16-25 oed: Erin Fflur/Martin Jones
Enillydd Cadair yr Eisteddfod: 1. Menna Medi
Enillydd Medal Lenyddol dan 25oed: 1. Ceinwen Jones
Unawd Piano Agored: 1. Catrin Llewelyn
Darllen darn heb ei atalnodi: 1. Prys Hughes; 2. Glain Hughes; 3. Beca Jones
Deuawd Agored: 1. Eleri Bean a Lyndsey Pleming
Unawd Agored: 1. Erin Fflur; 2. Martin Jones
Parti Alaw Werin: Côr Cynfi
Côr / parti Agored: 1. Parti Ieuentid Deiniolen; 2. Côr Cynfi
Cwpan Bryn Du am yr ymgais orau adran gwau a gwnio: Mona Parry
Cwpan Clwb Snwcer am yr ymgais orau adran gwaith coed: Dyfan Evan Jones
Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams am yr ymgais orau yn yr adran gerdd dan 21 oed: Erin Fflur
Tlws y Cerddor dan 25 oed: Catrin Llewelyn





Diolch yn Fawr Unwaith eto rhaid diolch i Mr Ifor Green a fu'n brysur iawn drwy'r haf yn tyfu ei wallt a'i farf er budd Tŷ Gobaith, Hospis Plant Glanconwy, ac er cof am Elis Wynne Griffiths, bachgen bach arbennig Bryn a Ruth. Cafodd y gwallt a'r farf eu torri i ffwrdd yn Y Glyntwrog ar 7ed Tachwedd. Ynghyd ac arian y noddwyr a chasgliad y noson, cafwyd y cyfanswm gwyd o £1,100. Diolch i bawb am eich haelioni, a diolch un fawr i Ifor, gan obeithio y bydd y gwallt a'r barf wedi tyfu cyn i wyntoedd oer y gaeaf gyrraedd.

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Gwobrwyo – Rydym yn falch o gael llongyfarch y disgyblion canlynol ar dderbyn medal am lwyddo i gwblhau her cenedlaethol Sialens Ddarllen yr Haf “Torri Pob Record” – Megan Dafydd Elias, Nina Houston, Math Wyn Gruffudd, Sion Dafydd Elias, Branwen Hedd Gruffudd, a Gerallt Sion Owen.

Cofio – Bore Mercher, Tachwedd 11eg, am 11 o'r gloch treuliwyd amser tawel ger y gofeb sydd yng nghyntedd yr ysgol i gofio am fechgyn y pentref a gollodd eu bywydau yn y rhyfel. Cafwyd darlleniad gan Efa a Harri.

Diwrnod Plant mewn angen - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r Ysgol mewn gwisg nos dydd Gwener, Tachwedd 13eg, gan dalu dirwy o £2. Roedd y Rhieni a'r staff wedi bod yn brysur yn gwneud cacennau a'u gwerthu yn ystod egwyl y bore. Trosglwyddwyd yr arian a gasglwyd, sef £116.20c i gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Pêl Rwyd – Bore Llun, Tachwedd 16eg, cafodd plant Bl 1 a 2 gyfle i flasgu sesiwn pêl-rwyd dan arweiniad Ffion, sydd yn gweithio i'r Urdd. Diolch iddi am ei hamser, roedd y plant wedi cael hwyl a mwynhau.

Gwasanaeth – Croesawyd Mr Andrew Settatee i'r ysgol bore Llun, Tachwedd 16eg, i gynnal y Gwasanaeth boreol.

Diwrnod yn Ysgol Brynrefail – Cafodd plant Bl 6 gyfle i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail dydd Mercher, Tachwedd 18fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Cinio Nadolig - Bydd Anti Carolyn yn paratoi cinio Nadolig dydd Gwener, Rhagfyr 9fed Mae cyfle i'r plant Meithrin ymuno â ni yn ogystal â'r plant sydd yn

arfer cael pecyn bwyd, y gost fydd £2.20c.

Gwasanaeth Nadolig - Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Santes Helen nos Fercher, Rhagfyr 16eg, am 6 o'r gloch. Ni fyddwn yn gwerthu tocynnau, ond yn hytrach gwneir casgliad tuag at gronfa'r ysgol yn ystod y Gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

Pantomeim - Byddwn yn mynd â phlant Bl 0 i 6 i “Venue Cymru” Llandudno pawns dydd, Mawrth Rhagfyr 15fed, i weld y Pantomeim “Eira Wen”.

Diwrnod Siwmpwr Nadolig – Bydd cyfle i'r plant (a'r oedolion!) wisgo siwmpwr Nadoligaidd dydd Gwener, Rhagfyr 18fed, a thalu dirwy o £1. Byddwn yn trosglwyddo'r arian i gronfa Achub y Plant

Adloniant yn y Gymuned – Cynhelir Pawns Wasael dydd Llun, Rhagfyr 21ain, am 2 o'r gloch. Bydd cyfle i ganu carolau a gwrando ar eitemau gan blant yr ysgol. Bydd Pwnsh a mins pei i'w gael ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.

Ail Gylchu – Cofiwch am bin ail gylchu Antur Waenfawr sydd wedi ei leoli yng nghyntedd yr Ysgol. Bydd yr ysgol yn derbyn arian am bob bin llawn ac, wrth gwrs, mae'n gyfle gwyd i gefnogi'r Antur.

Gwyliau Nadolig - Bydd yr Ysgol yn cau dydd Mawrth, Rhagfyr 22ain, ac yn ailagor i'r plant dydd Mawrth, Ionawr 5ed. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Hydref oedd Mrs Nannie Evans 26, Bryn Tirion gyda rhif 16. Llongyfarchiadau Gan fod mwy o rifau wedi eu hychwanegu i'r Loteri Cenedlaethol, mae gennym

10 rhif ychwanegol ar gael os oes unrhyw un yn awyddus i ymuno am £1 y mis. Cysylltwch â Liz (872421) neu Janet (871265)

Cyfarchion Nadolig Dymuna Nannie, 26 Bryn Tirion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a bendithiol i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau i gyd, gan na fydd yn gallu anfon cardiau eleni.

Dymuna Betty Pritchard 3, Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w chymdogion a'i ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Dymuna Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, cymdogion a chyfeillion. Byddant yn cyfrannu arian at achos da yn hytrach nac anfon cardiau Nadolig. Dymunant hefyd ddiolch i Joni a Len am y gwaith rhagorol a wnaethant yn y tŷ yn ystod yr amser pan oedd Pat yn yr Ysbyty!

Te Parti Plant Cynhelir te parti i'r plant ac adloniant yn Neuadd yr Ysgol Gymuned nos Wener, Rhagfyr 18fed, o 5.30 tan 7.30 o'r gloch. Tâl mynediad £1 yn cynnwys bwyd ac adloniant gan “Ricardo” y Môr Leidr ac Elsa yn canu caneuon “Frozen”. Bydd unrhyw elw yn mynd tuag at Gronfa Pensiynwyr Penisarwaen.

Cylch Ti a Fi Mae'r Cylch wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar. Cawsant hwyl yn gwneud baner môr leidr ar gyfer y gystadleuaeth gwaith llaw ar gyfer Eisteddfod Bentref Penisarwaen, a derbyniwyd canmoliaeth gan y beirniaid am y gwaith yma. Bnawn dydd Iau, Tachwedd 12fed, gwerthwyd cacennau yn y Cylch i blant yr ysgol a gwnaed elw o £48.60c i gronfa Plant Mewn Angen, diolch i bawb a gyfrannodd. Byddwn yn gwneud gwaith llaw ar gyfer y Nadolig yn ystod mis Rhagfyr, a chynhelir parti ac ymweliad gan Siôn Corn bnawn dydd Iau, Rhagfyr 17eg. Bydd y Cylch yn ailagor rhwng 1.30 a 3 o'r gloch dydd Iau, Ionawr 7fed, gyda chroeso i unrhyw blentyn gyda Rhieni neu Ofalwyr i ymuno gyda ni.

Dymunwn ddiolch i Yvonne Williams am ei gwaith fel ysgrifennydd, yn anffodus bu raid iddi roi'r gorau i'r swydd oherwydd ei gwaith dyddiol. Byddwn yn penodi Ysgrifennydd arall yn fuan gobeithio. Diolch hefyd i Rhian, ein Harweinydd gweithgar, am baratoi ar ein cyfer bob wythnos.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr yw: Osian Dafydd,

57 Braichmelyn, Bethesda, a'r Cynghorydd Hefin Williams, Ffiolau'r Grug, Rhiwlas.

Clwb Cant Rhagfyr: Yr enillwyr yw Brenda Richardson, 4 Bryn Hyfryd ac Yvonne Williams, Bwthyn, Waen.

Derbyniodd Phyllis Gatalog Webb Ivory yn brydlon erbyn Tachwedd 1af a dymunir diolch i bawb a gefnogodd y weithgaredd flynyddol hon.

Dymunir anfon ein cydymdeimlad llwyrâf â theulu'r diweddar Huw Davies, Tyddyn Hendre, a fu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd wedi gwaeledd byr. Bu'n aelod ffyddlon o'r Clwb Cant ers y cychwyn. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Santes Helen.

Bwriedir cynnal pawns cymdeithasol yn y Neuadd Gymuned i ddathlu'r Nadolig gyda chyfle i fwynhau eitemau gan blant yr ysgol, canu carolau traddodiadol a chael sgwrs gyda phaned a mins pei. Estynnir croeso twymgalon i bawb, yn arbennig i chwi rieni, dowch i gefnogi'r plant am 2.00 bnawn Llun, Rhagfyr 21.

Rydym fel pwyllgor yn estyn croeso cynnes i Sharon a'i phartner a'u mab bychan, Joseff, ynghyd â theulu newydd Meillionydd. Croeso cynnes i chi ymuno â ni yn ein hamrywiol weithgareddau.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul, Tachwedd 8fed, sef Sul y Cadoediad, cynhaliwyd gwasanaeth byr yn y capel i gofio'r bechgyn a syrthiodd yn yr Ail Ryfel Byd. Cawsant hanes Hedd Wyn gan Anti Liz tra bo Anti Ann yn cofio amdano ym mynwent Artillery Wood, Gwlad Belg. Hebryngwyd y plant at Gofgolofn yr Eglwys erbyn 11.00.

Trefnir trip i weld Siôn Corn fore Sul, Rhagfyr 13, yn Llanberis. Croeso cynnes i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Rhaid cyrraedd Gorsaf y Rheilffordd erbyn 10.00 y bore gan fod y trên yn cychwyn yn brydlon am 10.15 yb.

Edrychir ymlaen at gwmni Andrew Settatee fore Sul, Rhagfyr 6ed. Bydd yr Ysgol Sul yn gorffen ar Sul y trip ac yn ailgychwyn y Sul wedi i'r ysgol ailddechrau.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ac anfonir cyfarchion arbennig i Mr Evie Jones, Arolygwr yr Ysgol Sul. Genedigaeth Croeso mawr i Myfi Deiniol, merch fach Urien a Rhian, Treganna, wyres i Deiniol a Heulwen, gor-wyres i Betty Pritchard a nith fach i Mari Deiniol. Mwynhewch ei chwmni ar ei Nadolig cyntaf.



Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2015



Parti Merched



Parti Sbaeneg



Sgets

Eleni cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar ddydd Iau, Hydref 22ain, yn neuadd yr ysgol. Yr oedd y diwrnod o gystadlu yn benllanw ar waith paratoi ac ymarfer ers wythnosau a'r chweched dosbarth wedi bod yn hynod o brysur yn paratoi'r gwahanol gystadlaethau.

Y beirniaid eleni oedd Mrs Bethan Antur (cerdd), Tammi Gwyn (llefaru) a Siôn Elwyn Hughes (llên) y ddau olaf yn gyn-ddisgyblion o'r ysgol. Dywedasant eu bod wrth eu boddau yn ystod y dydd a gyda'r nos yn gwyllo'r gwahanol gystadleuwyr talentog a'u bod wedi mwynhau'r awyrgylch hwyliog a byrlymus yn fawr iawn.

Un o gystadlaethau mwyaf poblogaidd y bore oedd y sgetsys a phawb yn mwynhau'r actio a'r jocs – rhai ohonynt yn well na'i gilydd! Yn y diwedd sgript arbennig ty Eryri ac actio ac amseru gwyich Math olygodd mai nhw enillodd a chael y fraint

i berfformio yn eisteddfod yr hwyr.

Cafodd y gynulleidfa lawer o hwyl pan ddaeth y caneuon ysgafn i'r llwyfan. Roedd pob ty yn wych ond penderfynodd y beirniad mai'r ddau dy a gai fynd ymlaen i gystadlu yn y nos fyddai Gwryfai ac Eilian. Yn dilyn y gystadleuaeth honno daeth y partion Sbaeneg i'r llwyfan yn eu melyn a'u coch yn canu'r gân 'Danza Kuduro' yn frwdfrydig iawn! Yr enillwyr y tro hwn oedd Elidir.

Cân y parti bechgyn eleni oedd 'Pishyn' – cân achosodd lawer o chwerthin a'r hogia wrth eu boddau'n actio stori'r gân er na lwyddodd yr un o'r tai i wisgo un o'r hogia i fyny i edrych fel pishyn go iawn! Yr oedd y parti merched yn gystadleuaeth ychydig yn fwy parchus efallai gyda'r genod yn canu 'Sebona fi' yn swynol iawn i gyd.

Parhaodd yr hwyl pan ddaeth y grwpiau dawnsio i'r llwyfan.

Ennillwyr



Y gadair



Parfi Bechgyn



Parfi Merched



Gwelwyd llawer o wahanol fathau o ddawnsio (ac un grŵp o fechgyn i gyd) ond y grŵp buddugol a berfformiodd yn llawn hyder ac egni oedd genod ty Gwyrfai. Cafodd pawb ddaeth i wyllo'r Eisteddfod yn y nos wledd ac mae'n anodd iawn dewis a dethol yr eitemau gorau. Yr hyn sy'n aros yn y cof yw hapusrwydd Glain Hughes, blwyddyn 9, Elidir a Ffion Roberts, blwyddyn 13, wrth ennill Medal yr Ifanc a'r Gadair. Gwefreiddiwyd y gynulleidfa wrth wrando ar gystadleuaeth yr unawd i flynyddoedd 10 – 13 sef yr unawd allan o sioe gerdd. Byddai'n anodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd guro safon y gystadleuaeth hon. Dyfarnodd y beirniad mai perfformiad Megan Crisp o dy Gwyrfai oedd yn haeddu'r wobr gyntaf gyda Gwern Brookes (Gwyrfai) yn ail a Magi Tudur (Eilian) yn drydydd.

Daeth y noson i ben gyda phedwar côr caboledig iawn yn ymddangos ar y llwyfan i ganu 'Hawl i Fyw'. Mae'n debyg bod dros dri chant o hanner o ddisgyblion wedi ymddangos ar y llwyfan, cymaint oedd niferoedd pob côr. Y gystadleuaeth hon oedd pinac y cystadlu a'r canlyniad yn agos iawn gydag Eilian yn fuddugol. Yr oedd y canlyniad terfynol hefyd yn agos gyda Gwyrfai yn gyntaf, Eilian yn ail ac Elidir ac Eryri yn drydydd a phedwerydd. Diolch i gapteiniaid y tai i gyd, y chweched dosbarth am hyfforddi, yr holl ddisgyblion a gymrodd ran a'r athrawon i gyd a fu wrthi'n paratoi ar gyfer cynnal eisteddfod ysgol fwyaf llwyddiannus ysgolion Cymru. Ymlaen yn awr at Steddfod 2016!

Ysgol Waunfawr

Diwrnod Plant Mewn Angen



Roedd yn braf gweld y plant i gyd wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Plant mewn Angen ddydd Gwener diwethaf, Tachwedd 13eg. Yn ystod y dydd cafwyd llawer o weithgareddau i ymwneud â'r diwrnod – peintio wyneb, addurno bisgedi Pudsey, gweithgareddau dosbarth yn seiliedig ar y diwrnod, gwerthwyd breichledi a chlustiau Pudsey. Casglwyd £375.00 tuag at yr achos, sy'n swm anrhydeddus iawn. Diolch i bawb am gefnogi.

Ras Eryri Hoffem ddiolch i bawb, yn rhieni a disgyblion, a wirfoddolodd i helpu gyda'r ras. Dyma'r wythfed blwyddyn i'r ysgol gynnal stondin ddŵr i'r rhedwyr. Rydym yn gwerthfawrogi y rhodd ariannol a dderbynnir gan y trefnwyr.

Ymgyrch y Plentyn Diolch hefyd i'r teuluoedd a gefnogodd Ymgyrch Nadolig y Plentyn i'rwy lenwi boc o anrhegion i'r gyfer plant llai ffodus na ni. Mae'n bwysig cofio ar drothwy ymor y Nadolig fel hyn ei bod yn bwysig iawn rhoi ac nid yn unig derbyn. Sylweddolwn hefyd bod rhoi boc o roddion fel hyn yn gostus y dyddiau hyn. Casglwyd 35 o focs eleni.

Ymweliadau Addysgol Tymor yr Hydref Cafwyd gweithgareddau diddorol yn ymwneud â'n themâu hanes yn yr ysgol yn ystod y tymor.

• Daeth Gwenda Roberts o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 2 am hen deganau, roedd y disgyblion wedi eu cyfareddu gyda'r hen ddolau a'r topiau pren.

• Treuliodd bl 3 a 4 ddiwrnod yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanymstundwy yn dysgu am fywyd yn Oes Fictoria. Cawsant wisgo a chael gwers yn null y cyfnod ac ymweld â bwthyn Highgate.

• Daeth Mr John Dilwyn o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 6 a oedd wedi bod yn astudio cyfnod yr Ail Ryfel Byd a chafwyd cyfle i weld artiffactau diddorol o'r cyfnod.

• Diolchwn hefyd i Mrs Pat Parry a Mrs Catherine Jones am ddod i'r ysgol i rannu eu profiadau hwy yn ystod y rhyfel. Roedd y disgyblion wedi cael

modd i fyw a bu iddynt ddysgu cymaint wrth holi'r ddwy.

• Cafodd bl 6 gyfle i feddiannu'r Archifdy yng Nghaernarfon am ddiwrnod ym mis Tachwedd gan chwilio a dysgu am hanes Waunfawr. Hoffem ddiolch i'r Archifdy am drefnu diwrnod mor ddifyr ac am dalu costau cludiant.

• Treuliodd y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 ddiwrnod yng Nghaernarfon Cyn Filwyr Dall yn Llandudno a chawsant groeso gwresog gan yr aelodau a chyfle i wneud addurn pren bob un.

Gweithgareddau Hybu Addysg Gorfforol

• Derbyniodd Bl 6 hyfforddiant 4 diwrnod i ddatblygu sgiliau beicio Lefel 1 a 2 yn ystod y tymor. Diolch i Anti Mari a Delyth mam Mabon am ddarparu'r hyfforddiant.

• Diolch hefyd i Sara Cynllun 560 Ysgol Brynrefail am roi hyfforddiant hoci i flwyddyn 5 a 6. Cynhaliwyd trnmaint hoci i holl ysgolion y Dalgylch yn Ysgol Brynrefail ar ddiwedd yr hyfforddiant a bu'n gyfle gwyh i'r disgyblion gymdeithasu yn ogystal â datblygu sgiliau'r gêm.

• Bu Tim Rygbi'r ysgol yn cystadlu yn Nhwrnamaint Rygbi Clive James ar y Morfa yng Nghaernarfon cyn yr hanner tymor. Er na fu llwyddiant y flwyddyn yma roedd pawb wedi mwynhau y gemau.

Ffilmio Fferm Ffactor Bu Cwmni Da yn ffilmio Fferm Ffactor gyda deg o ddisgyblion Bl 6 ddydd Llun a bu i bawb fwynhau y profiad.

Seremoni Siarter Iaith Gwynedd Bu 6 o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn Seremoni Wobrwy Siarter



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfa Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475






- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk

Parhad WAUNFAWR

Iaith Gwynedd yn Ysgol Syr Hugh Owen bawn ddoe. Derbyniodd yr Ysgol y Wobr Arian am eu hymlyniad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r ysgol. Eleni bydd yr Ysgol yn ymgeisio am y Wobr Aur eleni.

Ysgol Brynrefail Bu plant blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail ddydd Mercher, Tachwedd y 18fed. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau y profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen i'w hymweliad nesaf yn nhymor yr haf.

Cyngerdd Nadolig Band Ieuenctid Arfon Bydd 3 o ddisgyblion yr Adran Iau yn cymryd rhan yng Nghyngerdd Band Ieuenctid Arfon yn Theatr Seilio nos Fercher, Tachwedd y 25ain. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn gwersi pres yn yr ysgol gan Dylan Williams.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Cynhelir cyfarfod o'r Llywodraethwyr nos Iau, Tachwedd y 26ain.
- Bydd Andrew Settatee yn cyflwyno gwasanaeth y Nadolig i'r Adran Iau, dydd Gwener, Tachwedd 27ain.
- Cynhelir Miri Carolau yn yr Antur nos Wener, Tachwedd 27ain
- Bydd gwersi nofio/ gymnasteg a thenis yn gorffen Rhagfyr y 1af.
- Cynhelir ein cinio Nadolig ddydd Mercher, Rhagfyr y 9fed – ac fe gynhelir Ffair Nadolig yr ysgol ar yr un noson.
- Cynhelir ein sioeau Nadolig eleni nos Fawrth, Rhagfyr 15fed, a phnawn a nos Fercher, Rhagfyr yr 16eg.
- Bydd perfformiad y Dosbarth Meithrin ac ymweliad Siôn Corn, Rhagfyr 18fed.
- Bydd yr Ysgol yn cau ddydd Mawrth, Rhagfyr yr 22ain.

Yr Ysgol Feithrin Erbyn hyn yn ystod yr wythnos mae ugain o blant bach yn mynychu'r Ysgol Feithrin ar wahanol ddyddiau dan ofal Anti Lowri ac Anti Keren. Croeso cynnes i bawb.

Nos Wener, Hydref 30ain, cafwyd Parti Calan Gaeaf llwyddiannus iawn yn Y Ganolfan. Diolch am eich cefnogaeth. Gobeithir cynnal gweithgareddau amrywiol eto yn fuan.

Y Clwb 300 Enillwyr mis Hydref oedd: £30: Mr D.O. Davies, Brynteg; £20: Mrs Nan Huws Roberts, Madryn, 10 Erw Wen, Caethro; £10: Mr Wyre Thomas, Weirglodd Fawr, Caethro.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol ar Dachwedd Sed. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, Mrs Margaret Lloyd Jones a Mrs Annie Williams, o'r Ffederasiwn i'r cyfarfod. Cafwyd yr adroddiad am waith y flwyddyn gan yr Ysgrifennydd, Pat, a hefyd gan Catherine. Darllenodd Rose Ann, y Trysorydd, y Fantolen Ariannol. Ail-etholwyd yr holl swyddogion. Diolchodd Catherine i Mrs Margaret Ll. Jones am ei gwaith ac hefyd i'r holl aelodau am eu help yn ystod y flwyddyn ac am ei hail-ethol am flwyddyn arall, gan fawr obeithio y bydd pawb yn cydweithio eto fel o'r blaen.

Y cyfarfod nesaf am Ragfyr 3ydd fydd ein cinio Nadolig yn Bron Menai, Caernarfon. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd ymuno ar ddechrau blwyddyn newydd.

Eisteddfod Ysgol Uwchradd Brynrefail Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol sy'n byw yn y Waun fu'n cystadlu yn unigol, yn aelod o barti a chôr yn yr Eisteddfod ac i'r rhai fu'n llwyddiannus.

D y w e d d i a d Llongyfarchiadau i Ilid Bryn, Perthi, ar ei dyweddiad â Darren o Ynys Môn. Dymunwn bob hapusrwydd ichi eich dau.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau i Iolo a Michelle Davies, Pennant, Stad Bod Hyfryd, ar enedigaeth eu mab bach, Dicw Prys. Brawd a ffrind i Eban. Croeso i'r teulu bach i'w cartref yn y Waun.

Merch fach, Ella Wyn, a anwyd i Cara a Gerald, 2 Ael y Bryn. Chwaer fach i Alaw ac wyres i Wendy a Garry Jones, Stad Dôl Erddi, ac i Gwendoline Rowlands.

Adref o'r Ysbyty Wedi iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty croesawn:

Mrs Jane Roberts, Stad Bro Waun, adref wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.

Croeso adref i Dôl y Coed, Stad Bod Hyfryd, i Beryl Lloyd Jones wedi iddi dderbyn triniaeth pen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Mae yn gwella bob dydd.

Cafodd Jeanette Burdon, Stad Dôl Erddi, driniaeth clun yn yr ysbyty ond mae yn gwella erbyn hyn.

Treuliodd Mrs Nansi Williams, 2 Bro Waun, a'i merch, Llywela Davies, Stad Tref Eilian, gyfnod yn yr ysbyty ond mae'r ddwy gartref ac yn gwella erbyn hyn. Mae'n dda deall fod Rob Jones, Tan-y-fron, wedi dod adref o'r ysbyty ac yn gwella a chryfhau yn ddyddiol.

Dymunwn wellhad buan i chi i gyd, gan obeithio y byddwch yn teimlo'n well wedi cael dod adref.

Anfonwn ein cofion cynnes at Colin Rowlands sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Da deall fod Mared Rees Tŷ Awelog yn gwella wedi iddi gael anffawd i'w thraed yn ddiweddar.

Profedigaeth Yn dawel yng Nghartref Preswyl Dwynfa, Caernarfon, bu farw Mrs Mary Evans, mam annwyl Wali a theulu Llecyn Clyd, a Tecwyn a theulu Tremallt. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Emsyl Jones, Stad Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Alice, oedd yn byw yn Llanidloes.

Newyddion Da Roedd darllen yr erthygl yn y papur dyddiol, y Daily Post am Noa Gwilym, mab bach Doctor Pritchard (Meddygfa Liverpool House) ac Elen, a deall ei fod yn gwella ac yn cryfhau ar ôl pob triniaeth, yn newyddion da iawn.

Cofion cynnes a phob dymuniad da iti, Noa, i mam a dad a'r teulu sydd wedi gwirioni hefo chdi.

Ar y Teledu Mae dau berson cyfarwydd inni yma yn y Waun, sef Rhodri Siôn ac Elen Roberts, i'w gweld ar y teledu bob nos Fercher yn actio yn y ddrama gyfres 'Dim ond y Gwir'.

O dro i dro bydd dau arall o'r Waun i'w gweld ar y sgrin, sef Osian a Meilyr Gwynedd, yn trafod gweithgareddau cerddorol a'r gerddoriaeth y maent yn gyfansoddi ar gyfer rhaglenni teledu.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Rhagfyr

- 6: Parch Dafydd Lloyd Hughes
- 13: Gwasanaeth Nadolig y Plant
- 20: Parch Ddr Elwyn Richards
- 27: Dim oedfa

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

BOSCH Service
Car Service
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW BOSCH Car Service



Dyrchafiad i Stacey

Breuddwyd Stacey ers yn eneth ifanc oedd cael bod yn steilydd gwallt. Yn bymtheg oed, a hithau'n dal yn ddisgybl ysgol, dechreuodd weithio yn Salon Elaine's yn Llanrug, a hynny wedi oriau ysgol ac ar Sadyrnau. Roedd yn frwdfrydig iawn o amgylch y Salon, yn golchi gwalltau a chynorthwyo efo gwaith dyddiol. Coleg Menai i astudio trin gwallt oedd yr unig le i fynd ar ddiwedd ei gyrfa ysgol, ond byddai'n dod i'r Salon i weithio bob cyfle posib. Magodd hyder a datblygu ei sgiliau. Llwyddodd yn ei arholiadau a chael ei thystysgrif cyn dod i weithio'n llawn-amser yn Llanrug.



Bymtheng mlynedd yn diweddarach mae Stacey yn dal yno, yn lliwio a steilio gwalltau ei chwsmeriaid sydd hefyd bellach yn ffrindiau iddi. Ei phleser mwyaf yw trawsnewid unigolion drwy ddefnyddio 'hair extensions', a gweithio'n agos gyda chwmni Great Lengths, cwmni sy'n adnabyddus am walltau llaes rhai o ser enwog y byd pop. Ddechrau Rhagfyr bydd Stacey yn dechrau pennod newydd yn ei gyrfa, gan iddi gael ei dychafu yn gyfarwyddwraig gwallt y Salon. Gyda dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.



Yn ôl o Batagonia

Fel rhan o weithgareddau'r dathlu, cafodd Nia Haf o Lanrug, disgybl yn Ysgol Brynrefail, y cyfle i ymweld â Phatagonia fel aelod o Daith yr Urdd. Roedd y profiad yn un bythgofiadwy, ac mae'n gobeithio cael dychwelyd eto rywdro'n y dyfodol. Dymuna Nia ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at wneud y daith yn bosibl.

Ysgol Gynradd



Twrnamaint Morgan Parry

Llongyfarchiadau i fechgyn tîm rygbi yr ysgol ar ddod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Rygbi Ysgolion Cynradd Dalgylch Brynrefail a Dyffryn Nantlle. Llwyddodd y tîm i ennill y twrnamaint heb ildio yr un cais.

Chwith oedd ffarwelio â Ms Jacqueline Pugh cyn gwyliau hanner tymor yr hydref. Bu Jacqueline yn aelod gwerthfawr o staff yr ysgol am flynyddoedd – gofawraig, glanhawraig, gofawraig amser cinio ac aelod gweithgar iawn o Gymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol. Bydd colled fawr ar ei hôl ond diolchwn o galon iddi am ei hymroddiad a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol gyfle i wisgo'i fyny a mwynhau disco Calan Gaeaf cyn y gwyliau. Bu'n noson dda iawn a diolch i bawb a gefnogodd.



Diolch i'r rhieni a gefnogodd noson lythrennedd y cyfnod Sylfaen ar ddechrau mis Tachwedd. Diolch hefyd i Ifan Llywelyn o 'Hunaniaeth' a Nia Griffith o'r llyfrgell am eu cyfraniad ar y noson. Diolch hefyd i siop Palas Print am ddod â stondin lyfrau draw ar y noson hefyd.



Daeth Mrs Gwenda Williams draw o'r Archifdy yng Nghaernarfon i siarad â phlant blynyddoedd 3 a 4 am ysgolion Oes Fictoria. Cafwyd cyfnod difyr yn ei chwmni yn edrych ar arteffactau a lluniau o'r cyfnod. Diolch yn fawr iawn i Mrs Williams a diolch hefyd i Mr John Dilwyn Williams am ddod draw i sgwrsio gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 am effaith yr Ail Ryfel Byd ar yr ardal leol.

Cafodd dwsin o ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2 gyfle i fynychu agoriad swyddogol y Co-op. Roeddent wrth eu bodd ac mae gweddill y disgyblion yn edrych ymlaen yn eiddgar gan eu bod hwythau yn cael cyfle i fynd i siopa i'r Co-op yn fuan fel rhan o'u thema ar yr archfarchnad. Diolch i staff y Co-op am eu cydweithrediad.

Daeth pawb i'r ysgol mewn gwisg ffansi ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen eleni. Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn brysur yn coginio a gwerthu teisennau blasus hefyd ar gyfer yr apêl flynyddol. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.



Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb a ddaeth i gyfarfod cangen Llanrug ar nos Fawrth Tachwedd 10ed gan y Llywydd, Menna, a rhoddodd groeso arbennig i ddwy aelod a dderbyniodd driniaeth feddygol yn ddiweddar, sef Mary Parry a Helen. Cydymdeimlwyd â Margaret Christian ar golli ei mam. Anfonwyd cofion at Mair Huws a gafodd anaf fel canlyniad i godwm yn y tŷ. Nodwyd hefyd fod Islwyn, gŵr Eryl, wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar. Longyfarchwyd Heulwen ar enedigaeth ei hwyres, Myfi.

Yna 'roedd nifer o gyhoeddiadau i'w darllen. Anfonwyd gwahoddid gan gangen Bethel i ymuno â hwy mewn noson blasu gwin gyda'r Parch Marcus Robinson ym mis Chwefror gydag elw'r noson yn cael ei gyfrannu tuag at Ymchwil y Galon. Derbyniwyd cais am enwebiad ar gyfer swydd Is-Ysgrifennydd Cenedlaethol y Mudiad. Derbyniwyd taflen wybodaeth am frechiad rhag y fflw sydd yn rhad ac am ddim i rai dros 65 oed, merched beichiog, rhai sy'n dioddef o gyflyrau cronig, a.y.y.b. Mae angen cyflwyno unrhyw sylwadau ar y ffaiith i Tegwen dderbyn anrhydedd MBE cyn 12ed Chwefror. Derbyniwyd apêl gan Gwyn Angell Jones am nawdd ariannol tuag at yr uned famolaeth yn Ysbyty Jowai yn yr India. Cynhelir perfformiad o'r ddrama Difa gan Theatr Bara Caws yn Galeri, Caernarfon, ar 26ain a 27ain Tachwedd. Cynhelir cyfarfod i sefydlu Clwb Gwawr yn ardal Llanberis. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y gangen tuag at Eisteddfod Bentref Penisarwaun.

Y wraig wadd oedd Carol Llewelyn Jones, Bryn, Pwllheli. Mae'r teulu Jones wedi cynhyrchu jam, siytni a mwstard am 45 mlynedd. Ym 1982 syrthiodd Carol mewn cariad â John Jones, neu John Jam i'w gydnabod, ac ar ôl iddynt briodi 'roedd hithau

yn Carol Jam. Bu'r ddau ym Mhrifysgol Manceinion ac yna'n gweithio yng Ngogledd Lloegr cyn dychwelyd i Ben Llŷn i weithio yn y ffatri jam. Mae'r cwmni wedi ennill llawer o wobrau dros y blynyddoedd, yn cynnwys dwy Supreme Champion yng nghystadleuaeth "Tâst Arbennig Cymru". Mae'r cynnyrch yn cael ei wneud yn y ffordd draddodiadol drwy ddewis y cynhwysion yn ofalus a'u coginio mewn sosbenni agored â gwaelod copr iddynt. Mae'r cynnyrch yn cael ei werthu drwy Cymru, Lloegr a'r Alban ac fe'i hallforir hefyd i wledydd megis yr Unol Daleithiau, Ewrop, Canada ac Awstralia. 'Roedd Carol newydd deithio o Gaerdydd cyn dod i Lanrug lle bu'n derbyn gwobr gyntaf mewn cystadleuaeth a gynhelir gan The Guild Fine Foods am lemon curd ac hefyd am jam chili. Rhoddodd rai syniadau inni feddwl amdanynt, megis gweini jeli mintys gydag eog, y modd mae jeli cyrens coch yn gwneud grefi neu saws blasus. Mae'r cwmni wedi derbyn cais gan siop rwysgfawr Harrods i ddatblygu jeli quince sy'n brawf pellach fod ganddo enw da.

Daeth Carol ac ystod eang o'r cynnyrch gyda hi, megis siytni betys, marmalêd nionyn, siytni datys a ffigys, siytni cwrw, siytni afal Bramley, jam chili, siytni tomato sbeislyd a chafodd pawb y cyfle i'w blasu ac hefyd i brynu. Roedd pawb wrth eu bodd yn bwyta ac yn trafod ac yn gweld y noson yn gyfle i brynu ambell anrheg Nadolig.

Bu Iris, Ann Lloyd a Meirwen yn gyfrifol am wneud y baned ac enillwyd y wobr raffl gan Mary Parry.

Cafodd pawb dasg i feddwl
amdano ar y ffordd adref, sef
ym mha fodd y dylai'r cwmni
ddathlu ei ben-blwydd yn
hanner cant.

Ar 8ed Rhagfyr bydd
aelodau'r gangen yn dathlu'r
Nadolig yng Ngwesty'r Celt,
Caernarfon.

Gwasanaethau Rhagfyr

- 6: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson. Gweinyddir
y Cymun
- 13: Mrs Nerys Griffith
- 20: Gwasanaeth Nadolig y Plant
- 27: Cyfarfod Gweddi

Cydymdeimlad Yn 92
mlwydd oed bu farw Mrs Annie
Owens, 12 Corlan y Rhos, gynt
o Lanllyfni. Roedd yn gymeriad
hoffus iawn ac wrth ei bodd
yn sgwrsio gyda ymwelwyr i'r
cartref.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant
gyda'r plant, Beryl, Margaret a
Meirwen, Richard ei mab yng
nghyfraith, a'r holl wyrion a
wyresau a'i gor-wyresau.

Cydymdeimlad Wedi gwaeledd hir yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis, bu farw Mrs Glenys Salisburys. Fe'i magwyd yn Tyddyn Alys ond yn byw ers amser maith yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn yn arw â'r plant, Dora (Tan y coed), Dewi a Sian a'u teuluoedd i gyd.

Diolchiadau Hoffai Maureen
Pierce, 14 Bryn Moelyn,
ddiolch i bawb am y cardiau
a'r anrhegion a gafodd ar ei
hymddeoliad. Hefyd diolch i
bawb am eu caredigrwydd yn
dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty
Gwynedd.

Diolch Hefyd, fe ddymuna Islwyn ac Eryl, 56 Glanffynnon, ddiolch i bawb am yr holl gymorth a gafwyd tra yn symud tŷ a'r caredigrwydd gwerthfawr yn ystod amgylchiadau anodd. Diolch hefyd am yr ymweliadau a chysylltiadau yn dilyn llawdriniaeth Islwyn yn Ysbyty Gwynedd.

Gwellhad Buan Yn dilyn
damwain yn ei gartref, treuliodd
Mr Arthur Jones, 12 Hafan Elan,
gyfnod yn yr ysbyty. ond mae

adref erbyn hyn ac yn gwella o ddydd i ddydd. Daliwch ati.

Y Band Cynhelir Ffair Grefftau yng Nghartref y Band, Ffordd Glanmoelyn, nos Wener, 4ydd o Ragfyr. Drysau yn agored am 6.30 o'r gloch. Bydd amrywiaeth o stondinau gan grefftwyr lleol a chyfle i brynu anrhegion unigryw. Pris mynediad yw £2 yn cynnwys lluniaeth.

Hefyd bydd Noson Garolau a mins peis yn cael ei chynnal yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, 16 Rhagfyr, am 7.00 o'r gloch. Pris mynediad fydd £3 i gynnwys paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb i fwynhau'r noson boblogaidd yma.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau mawr i Kate Owen, 8 Hafan Elan, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed yn ystod y mis. Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Tachwedd: 1. Gwyn Daf Hughes, Llanrug; 2. Megan Williams, Llanrug.

Eisteddfod Bentref Bydd lluniau a chanlyniadau yn ymddangos yn rhifyn y Nadolig.

Dymuna Gwilym Rees Parry, Moranedd, ddiolch i'w frawd Gareth, a'i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr ymweliadau, y llu cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniodd ar ôl ei lawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Diolch hefyd i feddygon a staff y Feddygfa, Waunfawr am eu gofal hwylus hefyd. Diolch diffuant i bawb.

 **AM BETROL. DIESEL. OLEW ac**
AMRYFAL ANRHEGION MODURO 
PAPURAU NEWYDD A
PAYPOINT

GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM- Y- GLO

 **NADOLIG LLAWEN**
A BLWYDDYN DDA I BAWB
Ffôn-Llanberis 872046

Arian ar Gael i Astudio trwy'r Gymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig arian i'r rhai hynny sy'n dymuno dilyn cyfran o'u cwrs prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2016.

Gall unrhyw ddarpar fyfyrwr wneud cais am ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg er mwyn derbyn hwb ariannol sylweddol yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol.

Cynigir hyd at £3,000 i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio o leiaf 66% o'u cwrs trwy'r iaith a hyd at £1,500 i rai sydd eisiau dilyn o leiaf 33% ohono trwy'r Gymraeg.

Yn ychwanegol, mae Ysgoloriaeth William Salesbury o £5,000 ar gael i unigolyn sydd am astudio cwrs a gynigir yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg.

Mae cannoedd o gyrsiau ar draws prifysgolion Cymru yn gymwys i dderbyn yr arian a dylid sicrhau bod cwrs yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth cyn ymgeisio.

Y dull gorau o wirio a yw cwrs yn gymwys yw trwy ddefnyddio'r Chwilotydd Cyrsiau sydd ar wefan y Coleg Cymraeg neu trwy lawrlwytho'r fersiwn Ap.

Un oedd yn falch o glywed bod Cemeg yn gymwys i dderbyn arian oedd Rhodri Williams, gafodd ei eni a'i fagu yn Gran Canaria ond sydd bellach yn astudio ym Mhrifysgol Bangor:

“Roedd derbyn arian gan y Coleg Cymraeg yn golygu fy mod yn gallu ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith sy'n debygol o wella fy sgiliau Cymraeg. Rwy'n falch fy mod i'n gallu siarad Cymraeg ond roedd ysgrifennu trwy'r Gymraeg yn brofiad newydd cyn dod i Fangor. Fuaswn i'n annog darpar fyfyrwyr i fanteisio ar y cyfleoedd i ddilyn rhan o'u hastudiaethau prifysgol trwy'r Gymraeg ac ymgeisio am yr arian a gynigir trwy'r ysgoloriaethau.”

Cynllun Trydan Cwm Dwythwch?

Yn dilyn yr hanes am gynllun cynhyrchu trydan ar yr Afon Goch yng Nghwm Ty Du yn y rhifyn diwethaf, anfonodd Eifion Roberts y wybodaeth ganlynol. Tybed beth ddigwyddodd i'r penderfyniad gan 'engineers' y Llywodraeth?

Yn Y Dinesydd Cymreig fis Medi 1918 ceir y sylw canlynol dan newyddion Llanberis:

“Deallwn fod y Llywodraeth wedi anfon 'engineers' i Ogledd Cymru i edrych ansawdd y 'water power'. Buont yng Nghwmdwythwch y Sadwrn a'r Llun diwethaf, a chawsant eu bodloni'n fawr; ac maent wedi penderfynu gwneud cronfa ddwr i gynhyrchu trydan i gyflenwi rhyw weithfeydd neu'i gilydd yn y gymdogaeth. Da iawn wir.”



Clod i'r Copa

Mae'r Tŷ Bwyta Y Copa yn Llanberis wedi ei gynnwys yn y 'Good Food Guide' am 2016. Mae hyn yn glod arbennig i'r bwyty sy'n cynnig prydau blasus sy'n amlwg yn plesio eu holl gwsmeriaid. Sefydlwyd y 'Good Food Guide' yn 1951 gan Raymond Postgate ac y mae'n cael ei gydnabod fel 'beibl' y busnes arlwygo. Eleni mae'n dathlu 65 mlynedd o gyhoeddi'r arweinyfr i'r llefydd bwyta gorau ym Mhrydain.

Yn ddiweddar hefyd derbyniodd Y Copa glod arbennig gan 'Brawf Blas' y Daily Post.

Ar hyn o bryd mae prysurdeb mawr yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, a bydd y bwyty ar agor dros y Calan hefyd. Os am fwyd gwerth chweil wedi ei goginio'n ffres a'i weini gyda gwên, galwch 01286 872777. Bydd croeso a gwledd yn eich aros.

Enillwyr yr Wyl Gerdd Dant

Er i'r Wyl gael ei chynnal ym mhellafoedd de Cymru eleni, ym Mhorthcawl, daeth tair gwobr yn ôl i'r fro. Yn y cystadleuthau llwyfan, daeth Osian Trefor Lewis o Ddeiniolen yn drydydd ar yr unawd alaw werin i oedran cynradd.



Yng nghystadleuaeth cyfansoddi dawns werin ar y testun 'Ar Lan y Môr', Idwal Williams o Lanrug oedd yn fuddugol, gyda'i wraig, Bethanne yn ail. Llongyfarchion i'r tri ohonoch.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



**Nadolig
Llawen
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

**Oddiwrth
BAWB yn**

**DMM
LLANBERIS**

www.dmmwales.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Cyngor yn cefnogi cig oen Gwynedd

Mae ysgolion, cartrefi preswyl a chanolfannau dydd Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweini cig oen o ffermydd y sir yn ddiweddar fel rhan o ymgyrch i gefnogi Cig Oen Cymru.

Tra bod Cyngor Gwynedd yn prynu cynnyrch lleol trwy gydol y flwyddyn, mae'r staff wedi cydweithio gyda Hybu Cig Cymru (HCC) a chyflenwyr cig lleol i sicrhau fod cig oen o Wynedd wedi ei weini i dros 5,000 o ddisgyblion a mwy na 300 o breswylwyr cartrefi preswyl a chanolfannau dydd ledled y sir yn ddiweddar.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Gofal Cyngor Gwynedd: "Rydan ni fel Cyngor yn gweini Cig Oen Cymru trwy gydol y flwyddyn, ond rydan ni'n falch ein bod wedi gallu gweini cig oen penodol o Wynedd yn ddiweddar. Mae cig rhost a'r cinio dydd Sul traddodiadol yn boblogaidd iawn ymhlith preswylwyr ein cartrefi preswyl a'n canolfannau dydd, ac roedd hi'n braf gweld y preswylwyr yn mwynhau'r pryd arbennig yn ddiweddar."

Nododd Prys Morgan, Pennaeth Gweithrediadau Hybu Cig Cymru: "Roedden ni'n falch iawn o'r cyfle i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd a mae'n gyffrous iawn fod disgyblion ysgol a phreswylwyr cartrefi preswyl y sir yn cael pryd o fwyd maethlon yn cynnwys Cig Oen Cymru."

Dywedodd Gwynedd Watkin, Swyddog Gweithredol Sirol Undeb Amaethwyr Cymru: "Rydym yn falch iawn o'r ffaith fod Cyngor Gwynedd yn hybu cynnyrch lleol fel hyn. Hoffwn longyfarch yr awdurdod am ei ymdrechion dros y blynyddoedd i gefnogi ffermwyr lleol a darparu bwydydd lleol drwy ei wasanaethau."



Cig Oen yn cael ei fwynhau yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis. Yn y llun mae Lynnette Thomas, Dafydd Jones o gwmni cigydd DJ Jones a'i Fab, Sian Williams Evans, rheolwr y cartref a dwy o'r trigolion Betty Chambers a Pat Jones.

Gwobr Twristiaeth



Yn y llun gwelir Debbie a James McAllister gyda Rebecca Williams o Barc Brynteg yn derbyn eu gwobr gan un o gyfarwyddwyr Hoseasons.

Mae Parc Gwyliau Brynteg, Llanrug wedi ennill un o brif wobrau twristiaeth y wlad gan gwmni Hoseasons. Derbyniwyd y wobr am y 'Parc Ymlacio ac Archwilio' gorau ym Mhrydain mewn noson wobrwyo arbennig yn Brighton.

Meddai James McAllister, Cyfarwyddwr-Reolwr Brynteg: "Rydym wrth ein bodd yn ennill y wobr arbennig hon. Mae pob aelod o'r tim yn ymroddedig i wneud yn siwr fod pob un o'n cwsmeriaid yn cael profiad gwyliau anhygoel yma. Mae'n braf cael cydnabyddiaeth o'u gwaith caled."

Roedd Simon Altham, Cyfarwyddwr Cwmni Hoseasons yn hael ei ganmoliaeth: "Mae'r safon sy'n cael ei osod gan y Parc hwn yn sicrhau ei fod yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd a llewyrchus; rhywle sy'n cynnig lle gwell i aros i'n cwsmeriaid. Dymunwn yn dda iddynt yn 2106."



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym
**menter
fachwen**
(01286) 872014

**RHOSTIO
MOCHYN**
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**
**DEWCS MAE
O'N FLASUS**
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Gwarchod Llanberis rhag llifogydd



Y Cynghorydd Trefor Edwards yn astudio'r cynlluniau ar gyfer ardal Llainwen Isaf.


Yn ystod yr ail wythnos yn Nhachwedd cynhaliwyd arddangosfa yn Llanberis gan Dŵr Cymru yn amlinellu y gwaith sydd ar fin cychwyn yn y pentref i'w warchod rhag llifogydd tebyg i rai 2012 sy'n dal i aros yn fyw yn y cof. Amcangyfrifir y bydd yr holl waith yn costio £5.2 miliwn a'r gobaith yw y bydd wedi ei orffen erbyn mis Ebrill 2017.

Bydd y gwaith yn cael ei rannu i dair rhan, gyda'r rhan fwyaf ohono yn cael ei wneud yn safle trin dŵr y pentref er mwyn uwchraddio y broses. Bydd angen tynnu rhai tanciau a gosod rhai newydd mwy effeithiol ac effeithlon yn eu lle. Yn sgil hyn bydd sustem bwr a rheoli newydd yn cael ei gosod, ac yn defnyddio uned fodern a elwir yn 'Blue Pro'. Bydd hyn

yn helpu i wneud yn siwr fod y dŵr sy'n gadael y gwaith o'r safon gorau posib. Bydd yr uned hon yn ychwanegu at y broses sy'n bodoli'n barod. Mae'r gost ar y gwaith trin dŵr yn debygol o gostio £4.6 miliwn. Bydd gweddill yr arian yn cael ei wario ar welliannau o fewn ac o amgylch y pentref.

Mae rhan gyntaf y cynllun yn cychwyn fis Rhagfyr yn y gwaith trin dŵr, a gellir disgwyl loriau trymion yn cario offer i mewn ac allan o'r safle yn ystod y cyfnod dechreuol. Y gobaith yw y bydd y rhan hon o'r gwaith wedi ei orffen erbyn mis Gorffennaf 2016.

Mae'r ail ran i'r cynllun yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd yn ardal Llainwen o'r pentref. Mae ffrwd fechan yn llifo



Map (drwy ganiatad Dŵr Cymru) yn dangos:

- Dalgylch y dŵr sy'n cronni ger Llainwen Isaf.
- Cyfeiriad gwaredu'r dŵr gwastraff oedd yn arwain at lifogydd
- Cyfeiriad y bibell newydd fydd yn cario'r dŵr gwastraff i Afon Goch

Meddai, "Mae trigolion a busnesau wedi dioddef yn y gorffennol oherwydd llifogydd. Gobeithio y bydd y buddsoddiad hwn gan Dŵr Cymru yn datrys problem dŵr gwastraff a gorlifo yn y pentref."

Mae croeso i drigolion y pentref weld mwy o wybodaeth am y cynlluniau hyn ar wefan www.dwrcymru.com neu drwy gysylltu efo Gwenan Davies (0800 085 3968 neu Gwenan.Davies@dwrcymru.com)

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER CAENIARFON

MENTER Môn

CYNGOR GWYNEDD

ERDF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Europe & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Teithiau Cerdded Rhagfyr

GWENER 11 RHAGFYR 10.00 yb

HANESION GWAEN GYNFIA CLWT Y BONT (2½ milltir)

CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.

MERCHER 16 RHAGFYR 10.00 yb

LLANBERIS I CWM Y GLO: HANESION, CREIGIAU A MINS PEIS

(2½ milltir un ffordd / 5 milltir y ddwy ffordd)

CYCHWYN: CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD, STRYD FAWR, LLANBERIS

GORFFEN: CAFFI CWM Y GLO.

EITHA HAWDD. CEWCH BWS NEU CERDDED YN OL I LLANBERIS GYDA NI.

Côr Meibion Caernarfon yn sicrhau fod traddodiad yn parhau

Un o draddodiadau Caernarfon ers rhai blyneddoddd yw cynnal Cyngerdd Nadolig Elusennol ar ddechrau Rhagfyr yn Eglwys hardd y Santes Fair sy'n ffurfio rhan o hen furiau'r dref. Fe'i trefnwyd gan Glwb Rotari Caernarfon ond gyda'r gangen honno bellach wedi cau, roedd perygl i'r Cyngerdd Nadolig hefyd ddod i ben.

Yn ffodus, camodd Côr Meibion Caernarfon i'r bwlch ac mae'n braf cyhoeddi y cynhelir y cyngerdd unwaith eto eleni – ar Ddydd Gwener 4 Rhagfyr am 7.30pm.

Yn cymryd rhan bydd Côr Meibion Caernarfon, Côr Cofnod a Chôr Dre ynghyd â Megan Hunter yn canu'r fflwiwt a darlleniadau Nadoligaidd eu naws. Y pris mynediad fydd £5 gyda'r elw'n mynd at Hosbis yn y Cartref - Gwynedd ac Ynys Môn. Gellir cael tocynnau gan aelodau'r tri côr, ac ar y drws ar y noson.

Meddai Bryn Griffith, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon; "Byddai wedi bod yn biti i'r traddodiad hwn fynd ar ddifancoll. Yn ffodus iawn, mae Is-Gadeirydd y côr, Dafydd Jones, wedi gweithio'n galed i'w drefnu yn ein henw ni, fel ag y gwnaeth lawer tro yn enw'r Rotari.

"Bydd patrwm eleni yn debyg i'r arfer, ond hoffwn feddwl yn y dyfodol y bydd corau a chymdeithasau eraill Caernarfon a'r cylch yn trefnu'r cyngerdd yn eu tro gan osod eu stamp eu hunain ar y digwyddiad poblogaidd."

Meddai Dafydd Jones, "Dwi'n falch iawn fod Côr Meibion Caernarfon wedi camu i'r bwlch eleni er mwyn gwneud yn siŵr fod traddodiad Cyngerdd Nadolig Eglwys y Santes Fair yn parhau. Hwn, yn wir, yw dechrau dathliadau'r Nadolig i lawer."



O'r Cynghorau

**Cyngor Cymuned
Llanberis**

COFNODION HYDREF 2015

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Iau y 27ain o Hydref 2015 am 7.30 yr hwyr.

Presennol ac Ymddiheuriadau

Ward Padarn: Emlyn Baylis (Cadeirydd), Barry Davies, Bethan Holding, Derek Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau:. Eurig Druce, Gwilym Evans, Iwan Harding, Gwenda Roberts,

Datgan Buddiant: Neb

Cadarnhau Cofnodion:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau y 17eg o Fedi, 2015 fel rhai cywir Materion yn Codi:

1. Cysgodfan Bws Newydd:

Cafwyd deiseb am gysgodfan ym mhen gorllewinol y pentref. Penderfynwyd ystyried hyn pan yn gwneud Cyllideb 2016/17.

2. Cynllun Ynni Dŵr Afon Goch:

Wedi cael caniatâd cynllunio.

3. Digwyddiadau Chwaraeon:

Cafwyd trafodaeth fod nifer o ddigwyddiadau mawr ym myd chwaraeon yn golygu cau ffyrdd. Roedd nifer yn credu fod hynny yn digwydd yn rhy aml, am gyfnodau rhy hir ac nad oedd Cyngor Gwynedd (CG) yn ymgynghori bob tro. Soniwyd fod anwybodaeth ynglŷn â'r cau (adeg Marathon Eryri) ac nad oedd y cwmni bysiau wedi eu rhybuddio. Bu rhan o Stryd Fawr, Llanberis ar gau am oriau gan achosi cryn drafferth i drigolion ymhell ar ôl i fwyafrif rhedwyr y marathon gyrraedd yn ôl.

Soniwyd hefyd am drafferthion parcio, ac awgrymwyd llinellau melyn dwbl o geg pen gorllewinol y Ffordd Osgoi hyd at y safle bws.

Dyweddodd Barry Davies y bydd CG yn tynhau hefyd ar y ffordd y mae Cae'r Ddôl yn cael ei ddefnyddio adeg digwyddiadau poblogaidd. Bydd trefn drwyddedu'n cael ei hadolygu a'i thynhau. Awgrymwyd anfon llythyr at CG yn nodi'r gŵyn ynglŷn â'r diffyg ymgynghori ar gau ffyrdd yr ardal i ddigwyddiadau mawr.

4. Mainc Lechen:

Roedd y Clerc yn dal heb gael pris ar gyfer rhoi coedyn yn lle'r lechen a dorrrwyd ar y fainc yn ddiweddar. Roedd wedi bod yn ceisio darganfod pwy wnaeth y gwaith pan dorrrwyd mainc debyg yn y gorffennol.

5. Cae Chwarae:

Cytunwyd i adnewyddu'r offer ar ôl cael prisiau trwy CG. Bydd CG yn archebu'r offer.

6. Biniau a Moto beic:

Adroddwyd bod nifer o rwystrau ar balmentydd o hyd.

5 Materion Eraill:

1. Beicio:

Adroddwyd fod beiciau ar nifer o lwybrau cyhoeddus yn cynnwys llwybr Bwlch Maesgwm. Holwyd a oes hawl i ddefnyddio beic ar lwybrau cyhoeddus?

2. Digwyddiadau ar Ddôl y Goeden:

Cafwyd cwynion am ymddygiad ymwelwyr mewn digwyddiad diweddar. Roedd nifer wedi cwyno am sŵn mawr a cherddoriaeth uchel yn gynnar yn y bore ar yr uchelseinydd. Dywedodd Barry Davies fod CG yn ystyried cynllun trwyddedu ar gyfer digwyddiadau mawr er mwyn rheoli'r defnydd yn well o ran y cae a'i effaith ar y pentref. Nodwyd fod hynny i'w groesawu.

3. Golau Stryd:

Cafwyd adroddiad fod rhywun wedi ymyrryd ag un o lampau'r stryd yn Llainwen Uchaf.

Gohebiaeth:

1. Swyddfa Archwilio Cymru - Trefniadau Archwilio Allanol:

Llythyr yn nodi fod archwiliwr newydd, cwmni BDO LLP, Southampton, wedi ei benodi'n archwilydd penodedig ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn gweithredu o 2015/6 hyd at 2018/19 gyda posibilrwydd o estyniad am ddwy flynedd arall.

Bydd archwiliadau'r dyfodol yn rhoi'r pwyslais ar lywodraethu. Bydd newid i daliadau'r ffi archwilio. Nodwyd.

1/3

2. APCE - Nosweithiau cyfarfod y Cyngorau Tref a Chymuned:

Mae cynnig o dri dyddiad yn mis Tachwedd. Roedd amheuaeth a fyddai unrhyw un ar gael ar gyfer mynd i'r un lleol i ni.

3. CG - Cefnogaeth Gorfforaethol

Llythyr yn nodi fod Her Gwynedd wedi dechrau lle mae'r Cyngor yn ymgynghori ynglŷn â thorriadau ariannol oherwydd y bydd cyllideb llawer llai gan y Cyngor yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau.

4. CG - Biniau Halen:

Llythyr yn egluro na fydd y Cyngor yn medru llenwi'r biniau halen yn y dyfodol. Os yw cynghorau cymuned yn dymuno cadw'r biniau presennol yna o Ebrill 1af 2016 byddant yn gyfrifol amdanynt. Bydd llenwi ac ail lenwi bin yn y dyfodol tua £156, a phe bai Cyngor yn dymuno cael biniau ychwanegol yna byddai'r gost o ddarparu bin halen newydd wedi ei osod a'i gyflenwi a halen oddeutu £281. Ynglwm cafwyd rhestr o'r biniau yn Llanberis, ond roedd peth amheuaeth am gywirdeb y rhestr. Penderfynwyd bod angen sicrhau cywirdeb y rhestr o 16 bin, byddai cadw a chyflenwi pob un yn ychwanegu'n sylweddol at gostau a praesebiad y Cyngor. Cynigiodd BD i wirio'r rhestr. Bydd y mater yn cael ystyriaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.

5. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor:

Cafwyd apêl am gefnogaeth gan gadeirydd y Fforwm i wrthwynebu bwriad CG i gwtogi'n sylweddol ar nifer y swyddogion yn Adran Llwybrau CG gan ddod â'r nifer i lawr o 8 i 3 gyda'r gyllideb yn gostwng o £250,000 i £60,000 ar gyfer y sir i gyd. Awgrymir hefyd y bydd y gefnogaeth ariannol i dorri gwair a barbio'r llwybrau yn diflannu. Bydd y toriadau hefyd yn effeithio ar gyllideb parciau a lonydd glas yn ogystal â AHNE Llŷn. Yn gyfan gwbl, os gweithredir y toriadau, byddai 70% o'r gyllideb yn diflannu i sicrhau dros hanner miliwn o arbedion. Gresynwyd fod cymaint o swyddi i ddiflannu o'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad, ond penderfynwyd peidio ag ymateb.

Cynllunio:

1. Cyngor Gwynedd:

•C15/0923/15/LL - Codi amrywiol strwythurau o fewn safle trin presennol - Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, Llanberis.

Dim gwrthwynebiad.

•C15/1021/15/LL - Cais ar gyfer gwneud newidiadau i ganiatâd cynllunio C14/0736/15/LL ag ati - 56 Stryd Fawr, Llanberis.

Dim gwrthwynebiad.

2. APCE: Gwrthod:

•NP3/15/4F - Cais ôl-weithredol i gadw rhan o adeilad i'w ddefnyddio fel swyddfa a storfa gardd - 2 Mur Mawr, Llanberis

Wedi ei wrthod oherwydd ei faint, dyluniad, lleoliad ac amlygrwydd byddai'r adeilad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal.

3. APCE: Caniatâd:

•NP3/15/218 - Trosi, newid ac ymestyn adeilad gwledig segur i lety gwyliau a gosod tanc septig - Adwy'r Waun, Cwm Brwynog, Llanberis.

8 Materion Allanol:

Ceisiadau am Gymorth o'r Gronfa Cymorthdaliadau:

Penderfynwyd dosbarthu fel a ganlyn yn seiliedig ar geisiadau ac adroddiadau ariannol blyneddol.

Ras yr Wyddfa: 1000.00

Cylch Meithrin: 1000.00

Eco'r Wyddfa: 500.00

Geidiaid, a 3 grŵp arall: 500.00

Eisteddfod Genedlaethol: Cymru 150.00

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: 150.00

Côr Meibion Dyffryn Peris: 200.00

Cymdeithas Undebol Llanberis: 200.00

(Mae'r Clwb Ieuentid eisoes wedi derbyn £300 ar gyfer Noson Guto Ffowc i'r pentref.)

Cyfanswm: 4,000.00

Adroddiadau o Gyfarfodydd Allanol:

1. Ysgol Dolbadarn:

Adroddwyd fod y Prifathro wedi bod yn wael, ond er nad yw'n ôl yn yr ysgol yn ôl Trystan Thomas mae yn gwell.

2.Fforwm Llyn Padarn:

Roedd y Clerc wedi methu mynychu'r cyfarfod ond, yn ôl Barry Davies, roedd ansawdd dŵr y llyn yn llawer gwell nag y bu, er fod lle i wella eto. Adroddwyd fod lefel ocsigen yn y dŵr yn dal yn isel a bod gormod o ffosfat yn dal i fynd i'r llyn, ond fod Dŵr Cymru (DC) yn buddsoddi yn sylweddol er mwyn gwella'r sefyllfa. Adroddwyd bod sefyllfa'r ardaloedd lle'r oedd y torgoch yn claddu wedi gwella a tymheredd y dŵr wedi gostwng. Ychwanegwyd fod llawer o waith i'w wneud y gaef hwn i geisio gwahanu mwy o ddŵr glaw oddi wrth garthion, ond nad oedd hynny yn hawdd ar law mawr. Mae DC yn gweithio ar godi safon uned carthion Nantperis gan obeithio gorffen erbyn diwedd Mawrth.

12. Llongyfarch:

Cyflwynwyd llongyfarchiadau'r Cyngor i'r Clerc wedi iddo dderbyn Gwobr Netherthorpe yn Llundain gan Urdd y Newyddiadurwyr Amaethyddol am gyfraniad i newyddiaduraeth amaethyddol. Mae'r cyntaf i gael ei gydnabod am weithio yn y maes yn yr iaith Gymraeg.

LLYGAD YR HAUL

Caffi/Deli

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon-01286 870814

NADOLIG LLAWEN

a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun

Nos Fawrth 3ydd o Dachwedd 2015

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Sion Jones, Geraint Elis, Rhian Evans, Carolyn Roberts, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Jane Pierce, Idris Thomos, Gwilym Williams a R. Hefin Williams.

Braf oedd gweld Richard Ll. Jones yn ôl yn ein cwmni yn dilyn cyfnod o salwch, ac yn falch iawn ei fod yn gwella. Yn yr un modd, rydym yn meddwl am eraill ar y cyngor sydd ddim yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd ac yn anfon ein cofion gorau am wellhad buan atynt.

Gweddi. Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

1. Ymddiheuriadau. Philip Jones, Aled Green a Geraint Hughes

2. Datgan buddiant. Dim

3. Cofnodion cyfarfod 6ed Hydref 2015. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Rhoddion Ariannol – Derbyniwyd 9 llythyr o ddiolch gan gymdeithasau lleol a dderbyniodd rodd ariannol gan y cyngor.

Yn dilyn derbyn Mantolen Ariannol Gyfredol gan Ffermwyr Ifanc, penderfynwyd cyfrannu rhodd o £150 i'r gangen.

Derbyniwyd cais hwyr gan Glwb Snwcer Bethel. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cyfrannu £150 i'r clwb.

Llyfrgell Deiniolen – Derbyniwyd llythyr gan Mr. Gareth Ll. Parry, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi, yn cadarnhau fod plant dosbarthiadau CA2, am ail gychwyn eu hymweliad rheolaidd yn ôl i'r llyfrgell yn ystod y tymor hwn, ac rydym yn falch o ddweud fod yna 2 ymweliad wedi bod â'r llyfrgell yn barod. Adnewyddu Tai Bryntirion – Derbyniwyd llythyr gan CCG ynglŷn â'r broblem sydd yn achosi i'r tenantiaid fethu symud yn ôl yn dilyn cyfnod atgyweirio. Mae'n ymddangos fod yna drafferth gyda Dŵr Cymru, oherwydd eu bod wedi gorfod newid strwythur draeniau ar bedwar tŷ, ac yn disgwyl i adran gyfreithiol fabwysiadu y cynllun. Mae'n ymddangos fod y broses yma wedi cymeryd llawer mwy o amser na beth oedd yn ddisgwyliedig. Y clerch i ysgrifennu llythyr i Dŵr Cymru a copi i CCG, yn datgan ein siom ar y mater, ac mae'n debyg y buasai'r gwaith wedi ei orffen o ochor contractwyr, ac ei fod yn edrych yn debyg na llusgo traed sydd wedi bod ar y gwaith papur.

Gwaredu Anghyfreithlon - Mae'n ymddangos fod bagiau ac eitemau yn cael eu gollwng ar lôn Winllan, rhwng Tal y Waenydd a Perthi Isaf, Penisarwaun. Yn dilyn ysgrifennu llythyr i Wynedd, daeth ymateb yn cadarnhau fod trefniadau wedi eu gwneud i archwilio yr ardal, casglu unrhyw eitemau, ac

yn ogystal bydd y cyngor yn cadw golwg ar y safle.

Lôn Tan y Buarth, Bethel - Daeth llythyr i law yn ein hysbysu fod y cyngor yn mynd i ymgymryd â gwaith adfer yno er mwyn gwella edrychiad y ffordd. Fodd bynnag, gan fod y broses yn un dymhorol, ac angen gwres yr haf iddo fod yn llwyddiannus, ni fydd y gwaith yn cael ei gwblhau tan oddeutu mis Mai y flwyddyn nesaf.

5. Gohebiaeth a materion eraill.

Nifer yn cysgu ar y stryd – Derbyniwyd holiadur o Lywodraeth Cymru.

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn cadarnhau na fydd y cyngor yn llenwi y biniau halen o fis Ebrill ymlaen. Gan nad yw yn statudol, nid oes dyletswydd ar y cyngor i ddarparu biniau halen ar ein rhwydwaith o briffyrdd. Mae rhestr o 34 bin halen o fewn Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Buasai y gost o lenwi y rhain i gyd yn £5304, sydd yn aruthrol o uchel, ac mwy neu lai yn cymeryd y dipyn oddi ar y gyllideb. Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd gyrru copi o'r rhestr i bob cynghorydd i gael ei astudio a blaenoriaethu y biniau halen a chael trafodaeth bellach ar y mater yng nghyfarfod Rhagfyr. Y clerch i gysylltu â clerod cymunedau eraill i geisio eu barn ar y broblem. Penderfynwyd hefyd gyrru copi i Unllais Cymru i ofyn am eu barn a'u awgrymiad hwythau.

Parc Cenedlaethol Eryri – Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gynrychiolydd i'r cyfarfodydd. Diolch i'r Cynghorydd Sion Jones am gytuno i gynrychioli y Gymuned yn y cyfarfodydd.

Y Groes Goch – Derbyniwyd llythyr cais am nawdd ariannol i'r mudiad. Nid yw yn arferiad gan y cyngor roi rhodd ariannol i fudiadau cenedlaethol, ac hefyd mae'r cyngor yn cyfyngu rhoddion i elusennau lleol yn unig.

Grid Cenedlaethol – Derbyniwyd pecyn eto ynglŷn â'r ymgynghoriad ac arddangosfeydd o'u bwriad ynglŷn â peilonau. Barn y cyngor yn unfrydol yw fod na gymaint o beilonau yn barod fel y maent yn hagrau ein amgylchedd. Os ydym am gael y cynllun, yna, ei gael tan ddaear neu ddim o gwbl. Llythyr i'r Grid Cenedlaethol yn datgan hyn. Hefyd cysylltu â Chymuned Felinheli a Phentir yn datgan eu barn hwy.

Fforwm Padarn - Yn dilyn mynychu cyfarfod diweddar gan y mudiad, adroddwyd gan ein cynrychiolydd ar y fforwm, R. Hefin Williams, fod sefyllfa llygredd yn y llyn yn gwella.

6. Cynllunio

Ni dderbyniwyd yr un cais cynllunio mis yma.

7. O gwmpas y Bwrdd

Brynrefail – Problem bysiau i fynd 1 ffordd. Gor-barcio gan geir, rydym angen cyfnod o dreialu system un ffordd gan y cwmni bysiau.

Rhiwas – Ty'n Llidiart i Rhiwas. Yn dilyn cais cyn yr haf i agor ffos i ddraenio dŵr, mae'r broblem wedi ei throï i gyfeiriad y cae cyfagos. Nid oes gennym syniad pwy sydd wedi gwneud hyn, ond mae yna ddefaid yn pori, ac mae'r cae yn rhy llaith o lawer i'r defaid yn dilyn hyn. Cais i Wynedd eto i edrych i mewn i'r safle.

Deiniolen Golau stryd ar y gornel ger y Cwt Band ddim yn gweithio sydd yn gwneud mynediad i'r llwybr i'r maes parcio yn beryg. Elfed am gysylltu â Gwynedd.



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda

**ODDI WRTH
MORRIS BROS.**

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526




GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com



Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

a gynhaliwyd ar yr 20fed Hydref 2015

Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd parthed cyflwr cyfredol y ffordd drwy bentref Cwm y Glo. Adroddwyd ymhellach fod Cyngor Gwynedd wedi ymateb ac wedi rhoi esboniad o'r sefyllfa.

Coed Nadolig

Adroddwyd ei bod yn agosáu at y cyfnod i archebu coed Nadolig ar gyfer Llanrug a Chwm y Glo.

Penderfynwyd cysylltu â Chanolfan Glasfryn i archebu dwy goeden Nadolig, pymtheg troedfedd yr un, ar gyfer Llanrug a Chwm y Glo.

Pen Lythyr y Cyngor

Adroddwyd fod safon pen lythyr y Cyngor yn dirywio, oherwydd ei fod yn cael ei gopïo ac yn anffodus nid yw ar gael ar ffurf PDF. Adroddwyd ymhellach fod aelodau yn y gorffennol wedi mynegi bwriad i addasu'r pen lythyr ac efallai mai nawr yw'r amser i wneud hynny. Penderfynwyd i ymgynghori â Mr Gareth Roberts i ail edrych ar y llun.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

* Codi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo ynghyd ac ymestyn cwrtil, darparu trac a mynedfa newydd.

Lleoliad - Bryn Tirion, Ceunant, Llanrug

* Cais i newid defnydd llawr gwaelod y cyn dafarn i ddefnydd swyddfa. - Y Frican, Cwm y Glo.

* Cais i ddiwygio amod 2 o C97A/0447/23/LL i newid dyluniad plot 48 a 49.

Lleoliad - Nant y Glyn, Llanrug, Gwynedd, LL55 4AH

Ceisiadau am grantiau ariannol gan y Cyngor

Penderfynwyd talu'r grantiau canlynol:

Y Sefydliad Coffa: £2,100

Eco'r Wyddfa: £700

Ysgol Feithrin Llanrug: £700

Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo: £350

Seindorf Arian Llanrug: £700

Maes Parcio ger Ystorfa, Llanrug

Adroddwyd fod y wal yn y Maes Parcio wedi ei dymchwel drwy ddamwain.

Cyfeiriwyd hefyd at gwyn gan etholwr fod y llinellau melyn ar y Maes Parcio wedi treulio a'i fod wedi cael trafferth parcio ar y safle parcio i'r anabl. Aethpwyd ymlaen i drafod y sefyllfa gyffredinol tu allan i'r Ystorfa Llanrug, ac yn enwedig safle'r blwch post, sydd yn rhwystr i weld traffig o gyfeiriad Llanberis wrth dynnu allan o Ffordd Glanmoelyn i'r brif ffordd (A4086). Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i gael pris am ail beintio llinellau'r Maes Parcio Gwynedd ac i leisio cwyn am y parcio oddi amgylch y Storfa. Hefyd gofyn i'r Post Brenhinol symud y blwch post ac i leisio pryder ei fod yn rhy fach, yn enwedig dros y Nadolig.

Llwybrau Cyhoeddus

Penderfynwyd rhoi cais i Gyngor Gwynedd i gofrestru'r llwybrau o Stad Glanffynnon i'r A4086 a Stadau Glanffynnon ac Afon Rhos a'r llwybr cyhoeddus rhwng Ogwen a Ffordd Glanffynnon.

Un funud fach ...

NOS WENER YMMHARIS

Dydw i ddim yn deall rhyfel. Does gen i ddim profiad ohono. Roedd yr Ail Ryfel Byd wedi hen fynd heibio erbyn i mi gael fy ngeni. A diolch am hynny, fu'r un o'm dau droed yn agos at unrhyw faes cad. Ond mae'n amheus gen i a fyddai profiad o ryfel yn help i wneud synnwyr o'r rhyfel y clywsom amdano wedi'r ymosodiadau mileinig ym Mharis ganol mis Tachwedd. Lladdwyd o leiaf 129 o bobl, ac roedd trigolion y ddinas a miliynau o bobl eraill a glywodd yr hanes yn naturiol wedi eu brawychu. Soniwyd am ymosodiadau ciaidd a llwfr a didrugaredd, a hawdd deall y fath siarad gan mai pobl gyffredin yn hamddena, yn bwyta, yn yfed, yn dawnsio ac yn gwylio pêl droed a dargedwyd gan y saethwyr a'r hunan-fomiwyr.

Drannoeth y lladd roedd yr Arlywydd François Hollande yn dweud fod y Wladwriaeth Islamaidd wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn Ffrainc trwy'r holl ladd y nos Wener honno. Roedd yn hawdd iawn gweld pam y byddai'n dweud hynny. Yr hyn na fedrwn i ei ddeall oedd yr awgrym fod hynny'n beth annisgwyl. Oni fu awyrlu Ffrainc yn ymosod ar ymladdwyr y Wladwriaeth Islamaidd ers wythnosau? Beth oedd peth felly ond rhyfela? Pa eiriau bynnag a ddefnyddiwyd am gyrchoedd o'r fath, mae'n anodd osgoi'r ffaith eich bod yn rhyfela yn erbyn rhywun os ydych yn anelu bomiau atynt bob dydd. Nid yw hynny'n cyfiawnhau dim ar yr erchyllterau a gafwyd ym Mharis y noson honno. Roedden nhw'n weithredoedd ciaidd a mileinig. Ond mae'n rhaid cyfaddef ei bod yn anodd iawn eu gwahanu oddi wrth y bomio. Ac mae'r bomio hwnnw, a'r lladd a'r dinistr sy'n ganlyniad iddo, hefyd yn gïaidd a mileinig.

Ers pedair blynedd ar ddeg bellach clywsom am 'y rhyfel yn erbyn terfysgaeth'. Ond nid at ryw athroniaeth ynghylch terfysgaeth y mae'r bwledi a'r bomiau wedi eu hanelu mewn sawl gwlad ers hynny ond yn erbyn pobl. Nid syniadau ond pobl, yn cynnwys miloedd ar filoedd o ddynion a merched a phlant cwbl ddiwied, sydd wedi eu lladd. Ydyn ni wir i fod i gredu mai'r nos Wener honno ym Mharis y taniwyd ergydion cyntaf y 'rhyfel' hwn?

Fe'n brawychwyd gan y digwyddiadau ym Mharis. Yn gwbl briodol, fe wnaethom ni ffeiddio at yr hyn a welsom. Fe ddylai fod cywilydd mawr arnom pe na fyddem wedi gwneud hynny o glywed am yr holl bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol. Ac fe ddylai fod cywilydd arnom am beidio â ffeiddio o glywed am yr holl ladd a'r holl ddioddef y mae'r bomio dros Syria ac Irac yn ei achosi. Gwelwyd ar strydoedd Paris erchylltra'r lladd a'r tywallt gwaed. Ond ydym ni am un eiliad yn credu fod y bomio y mae perygl iddo bellach ddwysau yn lanach, a'r lladd a'r tywallt gwaed a achosir ganddo rywsut yn llai erchyll?

Mae geiriau Paul yn werth eu cofio: 'Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb' (Rhufeiniaid 12:18). Annog Cristnogion i ymddwyn mewn ffordd arbennig yn eu bywyd newydd o ddilyn Iesu Grist y mae Paul. Ond er mai hynny yn hytrach na manifesto i lywodraeth yw ei eiriau, y mae ynddyn nhw egwyddor y gellir ei chymhwyso hyd yn oed i wleidyddion a chenhedloedd yn eu hymwneud ag eraill. 'Os yw bosibl, hyd y mae ynoch, byddwch heddychlon â phob dyn.' Gweddiwn y bydd arweinwyr cenhedloedd ein byd yn cael gras a doethineb i weithredu un o egwyddorion symlaf Gair Duw.

JOHN PRITCHARD

POSH PAWS



TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen

(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

KEVIN DAVIES

Plastrwr Profiadol



Pob math o waith cynnal a chadw - mewnol ac allanol

Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655

Ffôn symudol: 07918733510

e-bost: kevindavies6287@gmail.com

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870328

Dyddiadur Her 6 mewn 6

Gofynnwyd i Stephen Edwards o Lanberis (sy’ bellach yn byw yn Llanfairpwll) roi argraffiadau o’i deithiau rhedeg anhygoel dros un wythnos ym mis Hydref. Roedd Stephen a’i ffrind, Alan Owen o Landegfan wedi penderfynu rhedeg cwrs Marathon Eryri chwech o weithiau mewn chwe niwrnod. Y bwriad oedd codi arian i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ar gyfer Timirfon, a chodi ymwybyddiaeth o’r ymgyrch ‘Hawl i Fyw’. Derbyniwyd wyth tudalen a thros dair mil o eiriau! Marathon arall. Yn anffodus, nid yw gofod yn caniatáu cynnwys y cyfan o’r argraffiadau, ond dyma flas i chi o sut wythnos fu hi. Llongyfarchion arbennig i’r ddau am gwblhau camp anhygoel ac am godi dros £11,000 – hyd yn hyn. Ond mae’r gronfa yn dal ar agor hyd ddiwedd y flwyddyn, a pha well anrheg Nadolig na chyfrannu er chwyddo coffrau’r apel? (Golygydd)

Dyma hanes Stephen:

Her yr Hogia

Ddiwedd mis Hydref mi wnes i gwblhau her a hanner. Ac i fod yn onest, tydi’r hyn mae’r ddau ohonom wedi ei wneud ddim wedi cweit ein taro ni eto! Pam rhedeg chwech marathon mewn chwe niwrnod? Wel, pam ddim?

A finna newydd ddathlu ‘mhenblwydd yn ddeugain oed, roedd angen her arna’i. Ac wedi holi fy ffrind, Alan Owen, dyma wneud y penderfyniad. Roedd ein ffrind Irfon Williams yn dioddef cancr, ac wedi gorfod symud i Loegr i gael triniaeth. Roedd angen tynnu sylw at ei ymgyrch ‘Hawl i Fyw’. Ymateb Irfon oedd, “Diolch i chi hogia – ond ‘dachi’n boncysr!” Wel, dyma hanes y ddau ‘boncysr’.

Dydd Llun, 19 Hydref.

Y cloc larwm yn clochdar am 6.30 y bore. Ia, dyna fyddai’r drefn am weddill yr wythnos. Codi – heb ddefro’r teulu – a bwyta. Panad, 6 bisged ginger nut, grawnffrwyth coch, uwd ac afal, a gwydriad o ddwr efo tabledi Fitamin C. Dyna’r drefn arferol. (Peth ofnadwy ydi trefn. Rhaid rhoi’r hosan chwith ymlaen gyntaf a rhaid lapio’r buff am y garddwrn de!).

Llwytho’r car, nol Alan i Landegfan a’i throi hi am Stad Cibyn, Caernarfon i gael ‘massage’ gan Dewi Ferrero.

Roedd y diwrnod cyntaf yn wahanol. Roedd pawb allan yn cefnogi: Radio Cymru, camerau teledu S4C, teulu, ffrindiau a chefnogwyr. Ond yn gyntaf rhaid oedd cyfarfod Dr Robin Parry yn y Syrjeri i gael profion pwysau, pwysedd gwaed a dwr. Mi fasa’n ddiwedd byd petai wedi dweud “ Dim digon iach i redag, bois!” Ond wnaeth o ddim. Roedd y ddau ohonom yn pwysu 13 ston a 6 phwys.

Braf oedd gweld criw Hawl i Fyw yno’n cefnogi, ac Irfon ei hun wedi dod yno i ddymuno’n dda i ni. Syrpreis arall oedd clywed cor plant Ysgol yr Hendre yn canu’r gan Hawl i Fyw.

Am chwarter i ddeg, cychwyn! Y penderfyniad oedd rhedeg y cwrs yn groes ar y diwrnod cyntaf, felly dyma gychwyn trwy ddringo o Lanberis drosodd i’r Waunfawr. Cael cwmni Bob Hind a Phil ‘Tan’ Jones. Fo oedd ein hyfforddwr ers chwe mis, ac er fod Lowri Morgan wedi rhoi cynllun hyfforddi i ni, Phil oedd yn gwneud yn siwr ein bod yn cadw ato! Roedd yn braf cael gorffen y diwrnod cyntaf.

Dydd Mawrth, 20 Hydref.

Teimlo’n reit bryderus wrth gael bwyd yng nghaffi Llygad yr Haul (a diolch iddynt am ein bwydo drwy’r wythnos). Pam a Linda yn deud “Ew, ‘dachi ddim yn edrach yn dda” ! Y broblem oedd gorffen y diwrnod cyntaf mewn 4 awr a 48 munud – rhy gyflym o lawer. Byddai’n rhaid arafu dros y dyddiau nesaf.

A dyna fu’r drefn: cadw at amser o filltir bob rhyw ddeg neu unarddeg munud. Rhedeg y cwrs y ffordd gywir heddiw, a Phil ‘Tan’ efo ni drwy’r dydd.

Ym Meddgelert, ar ol cael y panad ora’ erioed yng Nghaffi Hebog (a diolch iddynt hwythau hefyd am ofalu amdanom drwy’r wythnos), mi ymunodd llond llaw o redwyr eraill efo ni. Roedd y sgwrsio wrth deithio

am y Waunfawr yn lot o gymorth, ac erbyn dringo dros ysgwydd Moel Eilio daeth yr haul allan i roi croeso i ni.

Cyrraedd Llanberis ac i mewn i’r llyn. Bath rhew naturiol! Cawod yn y Clwb Ffwrtbol, bwyd ac adra i’r gwely! Ia, hon fyddai’r drefn am weddill yr wythnos.

Dydd Mercher, 21 Hydref.

Cael fy neffro am chwech! Nel, 4 oed, yn gweiddi “Dad, tisho mynd i redag; ty’d.” Bwyta brecwast a gwylio Peppa Pinc!

Rhedeg y ffordd groes heddiw, a chael cwmni Phil i Feddgelert. Matt Ward yn ymuno efo ni yno ac yn cadw cwmni i Lanberis. Braf cael ffrindiau a rhedwyr gwahanol i gyd-redeg. Y sgwrs yn amrywio o ddydd i ddydd. A digon o roi’r byd yn ei le.

Dydd Iau, 22 Hydref.

Gwely cynnar neithiwr – am naw, a chysgu’n sownd tan chwech y bore. Ella fod y chwisi bach wedi helpu!

Y drefn erbyn hyn oedd stopio am bum munud bob awr o redeg. Cael panad, bechdan gaws neu jam, dwr, siocled a ‘protein shake’. Heb anghofio creision Jones o Gymru i roi digon o halen yn ol i’r corff! Roedd digonedd yn cael eu cario yn y car – a diolch i Garej Elim, Llangefni am ei ddefnydd.

Wrth stopio yn Llyn Dinas cyn cychwyn ar y ddringfa am Ben y Gwryd, roedd yn hwb anferthol cael cefnogaeth Irfon Williams a ffrind ysgol i Irfon ac Alan, sef Robin McBryde.

Dydd Gwener, 23 Hydref.

Diwrnod mawr i’r ddau ohonom yn feddyliol. Hwn fyddai’r diwrnod diwethaf i ni fynd ein hunain (er fod cefnogwyr wedi cadw cwmni i ni bob dydd). Fory, byddai dwy fil arall allan ar y cwrs!

Gwyn, y paramedic, efo ni eto, yn gwneud yn siwr ei fod ar gael –jest rhag ofn. Braf hefyd oedd cael cwmni ffrind o ddyddiau ysgol – Dyfed Whiteside; rhedwr marathon profiadol. Hen sgwrsio a hel atgofion wrth fynd o amgylch.

Dydd Sadwrn, 24 Hydref : Diwrnod y Ras.

Y diwrnod mawr wedi cyrraedd. Roedd yn rhaid dilyn y cwrs cywir heddiw – ond o leiaf yn cael cychwyn awr a hanner yn gynt na’r gweddill! Ond y tywydd wedi troi. Gaeafol, oer a glaw. Socian o wlyb cyn cyrraedd Nant Peris. Pen i lawr, a brwydro. Fu fawr o siarad nes cyrraedd Llyn Dinas.

Milltir 20 ac edrych i fyny am Foel Eilio. Dim ond chwech arall i orffen yr her.

Teimlo’n emosiynol iawn, a dechra’ hel meddylia’. Meddwl am ffrind a gollwyd oherwydd cancr. Cyfnodau anodd. Ond dal ati i redeg. Ac yna, dyma ddechrau crio, a methu stopio’r dagrau am bron i filltir. Dros Fwlch y Groes ac i lawr am y pentra’. Ac mi ddaeth y dagrau yn ol wrth orffen a gweld cynifer o deulu, ffrindiau a chefnogwyr yno’n disgwyl. A Sharon ac Ann, genod y cofrestru yn dweud “Stephen, ti’n edrach yn well rwan nag oeddat ti ar ddechra’r wsnos!” Ac yn rhyfedd iawn, roeddwn yn teimlo’n iawn.

Cwblhau’r Her.

Rhedeg 160 milltir.

Yfed 5 litr o ddwr bob dydd.

Colli 1 ston o bwysau.

Llosgi 25,000 calori.

Be nesa?

Gobeithio fod yr her wedi codi ymwybyddiaeth o’r angen i ni ddynion fynd am ‘check-up’ yn fuan os oes rhyw anhwylder yn ein poeni. Mae bywyd yn rhy fyr i’w anwybyddu.

Heb benderfynu eto ar her 2016. Mae’n bosib y byddwn yn rhedeg Llwybr Arfordir Mon mewn 3 diwrnod yn ras y Cylch Tan. Ond mae son hefyd am redeg o Landudno i Gaerdydd, a chyrraedd y brifddinas ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen.

Mae’r ddau ohonom yn ddiolchgar ein bod yn medru rhedeg; yn medru dal ati i redeg, ond tra’n gwneud hynny, yn medru helpu elusennau sy’n cynnig cymorth i rai llai ffodus.



GAREJ

CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol


Llanrug 01286 677362 07979620996

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
Sychlanhau
Altro
Ailwnïo



54 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870088 GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Her 6 mewn 6



OES RHYWUN YN COFIO’R ENWAU?

Yng nghanol y glaw a’r gwynt beth well na tipyn o griced.Yn ddiweddar cyflwynwyd llyfr lloffion diddorol iawn i mi. Mae’n croniclo y gemau – gyda manylion cyflawn – a chwaraewyd gan glwb dinas Bangor a thimau eraill yr ardal yn y cyfnod 1926-1945. Mae’n rhyfeddol faint o griced oedd yn cael ei chwarae – nid yn unig ar benwythnosau – ond bod y gemau hynny yn cael eu cofnodi yn y wasg leol. Croniclir gemau clwb Bangor, Glanogwen (Bethesda), Llandegai, Y Vaynol, ac yna’r Ysgolion Gramadeg sef Friars, Caernarfon, Bethesda a Brynrefail. Yr olaf dynnodd fy sylw. Yn un gêm cofnodir fod Brynrefail wedi cael cymorth athro ifanc, Mr. James – y prifathro wedi hynny- ac R.W.Jones oedd yn ddisgybl athro yn y Coleg Normal. Ai timau cymysg o athrawon/disgyblion fyddai’n cynhyrchioli’r ‘ysgol’ yn y cyfnod yma?

Yn fwy diddorol, yn nhymor 1932 mae clwb Bangor yn mentro i Fro’r Eco ddwywaith. Yn y rhestr gemau ceir Bangor yn wynebu Ysgol Brynrefail adref ar Fai 14 ac i ffwrdd y Sadwrn canlynol. Ond, yn fwy diddorol ceir gemau gartref ac i ffwrdd yn erbyn Llanberis: Mehefin 25 a Gorffennaf 16.

Ai dau dim gwahanol oedd Ysgol Brynrefail a Llanberis. Y rheswm i mi ofyn, fel y gwelir isod fod gêm rhwng y ddau wedi ei chwarae yn Llanberis. Ble tybed oedd y cae? Ydy’r enwau a restrir isod yn canu cloch? Rhowch wybod. Mae’n siwr y buaswn yn ennill ‘pwyntiau’ gan y diweddar Rol Williams pe gwelsai yr erthygl hon.

CRICKET.	
At Ty Newydd on Saturday, the Bangor second eleven entertained the Llanberis County School, who were assisted by R. W. Jones, who is at the Normal College, and Mr. I. L. James, a master who takes charge of cricket in the school.	
T. G. Jones, who took four wickets for seven was Bangor's most successful bowler.	
LLANBERIS.	
H. T. Roberts lbw b B. Parry	0
W. H. Boyers b Foulkes	8
E. Jones b F. Parry	6
G. F. Hughes b Jones	0
I. L. James run out	5
R. Hughes b Howell.....	3
R. W. Jones b Jones.....	9
J. E. Jones c Howell b F. Parry	16
C. Jones not out	2
R. E. Roberts b Jones	3
H. Hughes b Jones	0
Extras	9
61	
BANGOR 2nd XI.	
G. T. Howell lbw b R. W. Jones	17
B. Parry b R. W. Jones	0
J. W. A. P. James c G. F. Hughes b E. Jones	23
S. P. Bhagwanani b G. F. Hughes	5
E. L. McLeod c James b E. L. Jones	36
I. H. Davies c James b R. W. Jones	0
O. G. Foulkes b E. L. Jones.....	9
A. I. Owen b R. Hughes.....	28
T. G. Jones b B. F. Hughes.....	2
F. Parry not out	11
Extras	3
143	

Y GÔL ORAU?

Yn y rhifyn diwethaf roedd Goronwy Hughes yn ein hannog i gefnogi Wrecsam – prif dîm y Gogledd. Mae tipyn o waith ar dîm y Cae Râs i ennill eu lle yn ôl ymysg detholion Cynghrair Pêl-Droed Lloegr fel y gelwir hi o’r tymor nesaf ymlaen. Mae y torfeydd rhwng 4 a 5 mil yn gyson yno yn awgrymu fod sylfaen ariannol da i’r clwb os ddaw llwyddiant.

Prin iawn fu fy ymweliadau â Wrecsam yn y tymhorau diwethaf. Colled i ni nad yw Wrecsam, Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yn cystadlu yng Nghwpan Cymru. Hefyd, ni cheir gemau rhyngwladol bellach yno. Ac roedd awyrgylch unigryw i gemau rhyngwladol yn y glaw dan y llifoleuadau yn Wrecsam.

Os oedd Goronwy yn dyst i fuddugoliaeth Wrecsam o 4-0 yn erbyn Gateshead, mae’n debyg iddo weld y “ gôl orau i’w sgorio ar y Cae Râs” chwedl rhai. Dominic Vose yn rhedeg heibio pum amddiffynwr cyn rhwydo. Mae’n ymddangos i 300,000 ei gweld

ar You-tube yn barod!

Ond y gôl orau? Beth oedd pwysigrwydd y gôl? Safon y gwrthwynebwyr? A fydd yn cymharu a gôl ryfeddol Mici Thomas yn erbyn Arsenal? Neu cic dros ben ryfeddol Mark Hughes yn erbyn Sbaen?

Efallai cawn ymateb gan Goronwy yn nodi y ‘gôl orau’ iddo ef weld yno. Oes ambell gôl yn aros yn eich cof chi mewn gemau lleol? Roedd digon o chwaraewyr dros y tymhorau oedd yn rhwydo’n gyson.

Hyd heddiw, a fu gôl bwysicach na gôl Roger Owen i Llechid draw yn Llanberis i gipio Cynghrair Arfon? Onibai am y gôl honno buasai Llanberis wedi ennill pob tlws posibl i glybiau amatur yn y Gogledd mewn un tymor. Tipyn o gamp , fuasai hynny. Y gôl ‘bwysicaf’, ond y ‘gorau’? Testun sawl dadl yw rhoi’r gair ‘gorau’ wrth gwt gôl, gêm, chwaraewr, tîm...

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y
PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

Oddiwrth bawb yn

**LONDON
GARAGE**

Cwm-y-glo

MOT, Teiars, Gwasanaeth ac Atgyweirio

Ar agor 9-5 Llun-Gwener
9-1- Sadwrn

Ffôn- 870234

**NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA**

I holl ddarllenwyr ECO’R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn

 **ARFON
GARAGE** 

DEINIOLEN

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Ffôn-(01286) 872304

RHEDEG MYNYDD

Gwobrau haeddiannol i Arwel.



Mia a Huw ym Metws y Coed.

Er mai tawel ar y cyfan yw Tachwedd ym myd y rhedwyr mynydd, daeth lwyddiant i Gareth W. Hughes yn ennill ras fynydd Rhobell Fawr o Lanfachreth, Meirionnydd. Bydd Ras Penmaenmawr wedi ei chynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Ar ddiwedd y mis hefyd bydd trydedd ras draws gwlad Cynghrair Gogledd Cymru wedi ei chynnal yn y Wyddgrug.

Yn dilyn ei lwyddiant y mis diwethaf yng Nghyngair Rasys Ffyrdd y Border, daeth Matthew Roberts o Lanberis yn gyntaf unwaith eto ym Mhenbedw. Ac yr oedd oddeutu pedwar cant o redwyr yn cystadlu, y nifer uchaf erioed mewn unrhyw ras yn hanes y Gynghrair.

Mae'r cyfleoedd i redwyr rasio gyda'u cwn yn cynyddu, a mwy o lawer bellach yn manteisio ar y rasys rheini. Cynhaliwyd dwy ras ar yr un penwythnos yn ystod Tachwedd: Betws y Coed ar y Sadwrn, a Llanddwyn ar y Sul. Ac yr oedd Mia a'i pherchennog, Huw Owen o Lanrug, yn cystadlu yn y ddwy! Roedd pedwar ugain o gwn (a'u perchnogion) yn cystadlu yn y ddwy ras, a daeth Mia a Huw yn drydydd yn ras 10 cilomedr Betws ac yn drydydd wedyn y diwrnod canlynol mewn ras 5 cilomedr yn Llanddwyn.

Ac i bawb lleol bydd Ras Hwyl Clwb Rhedwyr Eryri yn cael ei chynnal ar fore Sul 20fed o Ragfyr o Westy'r Fictoria, Llanberis. Bydd cofrestru yn cychwyn am hanner awr wedi naw, a'r ras ei hun am 11.00. Does dim rhaid bod yn aelod o'r Clwb i gystadlu. Croeso cynnes i bawb, yn deuluoedd ac mewn gwisg ffansi. Llawer iawn o wobrau amrywiol.



Yng Nghyfarfod Gwobrwyo Blynnyddol Athletau Cymru yn gynharach y mis hwn yng Nghaerdydd, cafodd gwaith diflino Arwel Lewis o Fethel ym maes rhedeg ei gydnabod.

Mae Arwel wedi bod yn aelod prysur o Glwb Rhedwyr Eryri ers blynnyddoedd, ac wedi bod yn llwyddiannus mewn degau ar ddegau o rasys, Ond mae hefyd wedi derbyn baich gweinyddol am amryw o rasys, fel Ras 10 cilomedr Caernarfon a Ras y Pedwar Llyn. Yn ogystal, mae'n rheolwr tim rhedeg mynydd Cymru, ac yn ddiweddar bu gyda hwy yn yr Eidal ar gyfer Ras y Trofeo Vanoni (sydd wedi ei gefeillio efo Ras yr Wyddfa). Yn gynharach y gaeaf hwn bu'n allweddol yn llwyddiant Pencampwriaethau Rasys Mynydd y Byd a gynhaliwyd ym Metws y Coed.

Doedd hi'n ddim syndod felly iddo dderbyn gwobr fel Swyddog y Flwyddyn (oddi ar y trac). Enillodd hefyd ddwy Wobr Glodwiw am ei "gyfraniad amlwg a phwysig" i'r Bencampwriaeth ym Metws y Coed ac am ei Wasanaeth i Athletau Cymru.

CHWYTH AEAFWYNT FEL Y MYNNOT.

Rhyw fis o brinder gemau a gohirio oherwydd y tywydd fu hi. Braidd yn simsan fu perfformiadau Llanrug yn y gynghrair a hefyd colli yng Nghwpan Cookson draw yng Nghyffordd Llandudno. Tipyn o sioc i ddeiliaid y cwpan mor gynnar eleni. Colled hefyd fydd trosglwyddiad Kevin Lloyd at y Cofis.

Bu Llanberis hefyd yn brin o gemau. Gobeithio na fydd y diffyg gemau yn amharu ar y perfformiad draw yn Greenfield yn Tlws F.A. Cymru.

Amharodd y tywydd ar gemau Waunfawr hefyd ond cafwyd dwy fuddugoliaeth dda yn erbyn Nefyn a Phrifysgol Bangor sy'n eu cadw ar gynffon y cefylau blaen yng

Rhedeg trwy'r Castell
Run through the Castle

Gafael Llaw
On caeli arlin i gefnogi plant o'r cancer
Raising money for children with cancer

2015

Ras Sion Corn
Caernarfon Santa Run

Ras hwyl 5k + 1k ras plant
5k fun run plus 1k kids race

11.30 or' gloch/o'clock
20 o Rhagfyr/December
Clwb Rygbi Caernarfon Rugby Club

Siwt Sion Corn am ddim i bawb/Free Santa Suit for every entry
+ panad a mins pei/Tea & Mince pie
+ Adloniant Nadolig / Christmas Entertainment + Seindorff Arian Llanrug

I gofrestru a fwy o fanylion
To register and for more details
www.gafael-llaw.co.uk

Holl elw yn mynd at elusen
All Proceeds to charity

ward dewi
alder hey
cllic sargent

Gafael Llaw

Chwaraeon



Ar y Dibyn- Siwrna' Fythgofiadwy

Pwy fuasai yn meddwl fod galwad ffon ychydig fisoedd yn ol am newid trywydd fy mywyd? ..
Wel, dyna yn union ddigwyddodd i mi.
Roedd cael y cyfle i fod yn un o'r 8 ymgeisydd ar y gyfres newydd 'Ar y Dibyn' yn brofiad bythgofiadwy.
Gyda dim llawer o brofiad yn y maes roedd cael cynnig a chwblhau tasgau anturus dros yr wythnosau diwethaf yn rhai wnaeth fy ngwthio yn gorfforol, yn feddyliol a gwneud i mi orfod dygymod a sawl ofn.
Roedd cyrraedd y rownd derfynol yn freuddwyd.
Rwyf wastad wedi bod yn un sydd yn hoffi her ac roedd Ar y Dibyn yn un sialens oedd yn apelio er mwyn gwthio fy hun i'r

eithaf a gweld sut y byddwn yn ymdopi ond hefyd roedd cael y cyfle i hyrwyddo'r cyfleuon awyr agored yn gweddu gyda fy swydd ar y pryd. (Ym amlwg wedi gwneud hynny)
Roedd yn braf edrych yn ol ar y gyfres a gweld sut rwyf wedi datblygu fel person ac wedi magu hyder fel arweinydd heb son am gael blas ar weithgareddau awyr agored.
Yn sicr mae'r rhaglen wedi gwneud i mi sylweddoli a chadarnhau na ddylwn fod yn gweithio tu ol i ddesg mewn swyddfa.
Roedd cael arweinydd antur llwyddiannus Dilwyn Jones a fy arwres Lowri Morgan fel beirniaid yn ysbrydoliaeth mawr ac yn braf cael cadarnhad clywed ganddynt eu bod yn meddwl fod gennyf y potensial i fod yn arweinydd antur.
Er siomiant peidio ennill y wobwr ar y cymal olaf wedi'r holl ymdrech i gyrraedd y ffeinal, rwyf yn edrych ar y profiad fel un positif fy mod wedi rhoi fy oll ac erbyn hyn yn cychwyn y daith o gyfnod newydd yn fy mywyd.
Roedd Tom yn gystadleuydd arbennig ac yn llawn haeddiannol o'r wobwr a hoffwn ddymuno yn dda iddo.
Roedd hi yn braf cael y cyfle i rannu y profiad anhygoel yma efo'r cyd-gystadleuwyr eraill sydd bellach yn ffrindiau am oes.
Roedd yn braf gweld criw oedd yn gallu cyd-dynnu er gwaethaf yr holl bwysau oedd arnom a'r holl gamerau yn gwylio a gwrando ar bopeth yn ystod y gystadleuaeth.
Hoffwn ddiolch i griw Cwmni Da, y beiriniad, cyd-gystadleuwyr am siwrne arbennig a phrofiadau anhygoel. Diolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y broses.
Hoffwn feddwl fod gwylwyr y rhaglen wedi cael eu hysbrydoli i roi cynnig ar weithgareddau awyr agored a sylweddoli beth sydd gennym ni yma yn Eryri (y maes anturiaethau gorau yn y Byd yn ein gardd gefn!)
Rwyf bellach yn cadw at fy ngair ac yn benderfynol o roi cynnig ar ddilyn gyrfa yn y maes awyr agored ac yn edrych ymlaen i weld be ddaw yn y dyfodol agos...
Hannah Hughes

Her y ddraig.



Ganol fis Hydref, roedd Leah Williams a Glenda Evans yn sefyll yn eithaf pryderus ar lan Llyn Padarn yn disgwyl cychwyn Her y Ddraig; ras rwystrau a rhedeg o amgylch y llyn. Pryderus oherwydd mai dyma'r tro cyntaf i'r ddwy roi cynnig ar y fath her. Mae'r ddwy yn gweithio yn Salon Trin Gwallt Elaine's yn Llanrug, a phrif bwrpas eu hymdrech oedd codi arian at Gymdeithas Ceolac ac Elusen Uned Anafiadau i'r Ymennydd. Bu'r ddwy yn



ymarfer yn selog yn nosbarthiadau ffirwydd Canolfan Tennis Caernarfon a dosbarthiadau ffirwydd cymunedol Llanberis. Llwyddwyd i gwblhau'r gamp mewn dwy awr a hanner, ond yn bwysicach, llwyddwyd i godi dros £600 at yr elusennau. Dymuna'r ddwy ddiolch yn fawr iawn i'w teuluoedd, ffrindiau a chwsmeriaid Elaine's am eu noddi.